



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau Statudol

Gwasanaethau Lleoli Oedolion

Mae'r canllawiau statudol hyn yn ymwneud â Rhannau 2 i 16 o Reoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

Ebrill 2019

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Ynglŷn â'r canllawiau hyn	1
Rhestr o'r prif dermau a ddefnyddir yn y canllawiau hyn	5
Dolenni defnyddiol.....	8
Pennod 1: Y Gofynion ar Ddarparwyr Gwasanaethau	
1.1	Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau..... 9
1.2	Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd cyn cytuno i ddarparu gofal a chymorth 21
1.3	Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd wrth gychwyn darparu gofal a chymorth 25
1.4	Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran yr wybodaeth sydd i'w darparu i unigolion wrth gychwyn darparu gofal a chymorth 32
1.5	Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran safon y gofal a'r sydd i'w darparu 34
1.6	Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau – diogelu 40
1.7	Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran staffio..... 48
1.8	Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran gofalwyr lleoli oedolion..... 57
1.9	Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran mangreoedd, cyfleusterau chyfarpar..... 63
1.10	Gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau 65
Pennod 2: Y Gofynion ar Unigolion Cyfrifol	
2.1	Gofynion ar unigolion cyfrifol ay gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol 72
2.2	Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol 78
2.3	Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd y gwasanaeth 81
2.4	Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd gwasanaeth rheoleiddiedig..... 82
2.5	Gofynion eraill ar unigolion cyfrifol 84
Atodiad A: Rhannau o'r Rheoliadau nad ydynt yn destun y Canllawiau hyn ..	
Atodiad B: Atodlenni i Reoliadau 28 and 36, 40, 41 a 63	
90	

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn gan Weinidogion Cymru o dan adran 29 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('y Ddeddf'). Mae'n berthnasol o 29 Ebrill 2019 ymlaen.

Mae'r Ddeddf, Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 ("y Rheoliadau") a'r canllawiau statudol hyn yn disodli gofynion a roddwyd ar waith yn flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal (2000) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol cysylltiedig.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi:

- sut y gall darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion gydymffurfio â'r gofynion a orfodir gan reoliadau a wnaed o dan adran 27 o'r Ddeddf, a
- sut gall y rhai a ddynodir yn unigolyn cyfrifol am wasanaeth lleoli oedolion gydymffurfio â'r gofynion a orfodir drwy reoliadau a wnaed o dan adran 28 o'r Ddeddf.

Mae'r gofynion hyn wedi'u cynnwys yn Rhannau 2 i 16 o'r Rheoliadau. Daw'r Rheoliadau i rym ar 29 Ebrill 2019 a bydd y canllawiau hyn yn cael effaith o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

Mae Adran 29(3) o'r Ddeddf yn dweud ei bod **rhaid** i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol dynodedig **roi sylw i'r canllawiau hyn** wrth fodloni'r gofynion a orfodir drwy reoliadau o dan adrannau 27 a 28 o'r Ddeddf.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn berthnasol i'r darparwyr hynny sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth o dan adran 6 o'r Ddeddf. Mae canllawiau am gofrestru wedi'u llunio gan y rheoleiddiwr gwasanaethau, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), ac maent ar gael ar ei gwefan.

Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

Darpar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol

Rhaid i'r sawl sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig wneud cais i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ('AGC') sy'n cyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru fel rheoleiddiwr y gwasanaeth. Rhaid i ddarpar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ddangos y byddant yn gallu bodloni'r gofynion a orfodir drwy'r Ddeddf a'r Rheoliadau ac, ar ôl iddynt gofrestru, y byddant yn dal i'w bodloni.

Er mwyn iddi ganiatáu cais i gofrestru, rhaid i AGC fod yn fodlon y bydd unrhyw ddarpar ddarparwr gwasanaeth rheoleiddiedig yn gallu ac y bydd yn bodloni'r safonau darparu gwasanaethau a bennir yn y rheoliadau o dan adran 27 o'r Ddeddf. Rhaid i AGC fod yn fodlon hefyd fod y sawl a ddynodir yn unigolyn cyfrifol yn gallu ac y bydd yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a restrir yn y rheoliadau o dan adran 28 o'r Ddeddf.

Bydd AGC yn defnyddio'r canllawiau hyn i lywio'i phenderfyniadau i ganiatáu neu i wrthod ceisiadau i gofrestru'n ddarparwr gwasanaeth.

Darparwyr gwasanaethau cofrestredig ac unigolion cyfrifol dynodedig

Rhaid i ddarparwyr cofrestredig gwasanaethau rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol dynodedig fodloni'r gofynion perthnasol yn y Rheoliadau. Wrth wneud hynny, **rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau statudol hyn** sydd â'r bwriad i'w helpu i ddeall sut gallant fodloni'r gofynion o fewn y Rheoliadau. Bydd AGC yn defnyddio'r canllawiau hyn i lywio penderfyniadau ynglŷn ag i ba raddau y mae darparwyr cofrestredig ac unigolion cyfrifol yn bodloni'r gofynion hynny.

Bydd darparwyr gwasanaethau'n gyfrifol o hyd am benderfynu sut bodlonir y gofynion, gan gadw mewn cof anghenion yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth rheoleiddiedig.

Os na fydd darparwyr gwasanaethau cofrestredig a'r unigolion cyfrifol dynodedig yn dilyn y canllawiau hyn, rhaid iddynt allu dangos bod eu ffordd o weithio'n eu galluogi i fodloni'r gofynion perthnasol yn y Rheoliadau.

Strwythur y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r canlynol:

- **Crynodeb o fwriad pob Rhan o'r Rheoliadau**

Mae Rhannau 2 i 11 o'r Rheoliadau, a wneir o dan adran 27 o'r Ddeddf, yn rhestru'r hyn sy'n ofynnol gan ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â safon y gwasanaeth y mae'n rhaid ei ddarparu. Maent yn sôn am bwysigrwydd llesiant unigolion sy'n cael gofal a chymorth¹. Maent hefyd yn gorfodi gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaeth sy'n gysylltiedig â gweithredu'r gwasanaeth rheoleiddiedig.

Mae Rhannau 12 i 16 o'r Rheoliadau, a wneir o dan adran 28 o'r Ddeddf, yn rhestru'r dyletswyddau a fydd gan yr unigolyn cyfrifol dynodedig mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys gofyniad i oruchwylio sut caiff y gwasanaeth ei reoli, gan gynnwys penodi rheolwr priodol ac addas. Y bwriad yw sicrhau bod unigolyn dynodedig ar lefel briodol o uchel yn atebol am ansawdd y gwasanaeth a hefyd am gydymffurfio, a sicrhau hefyd bod cadwyn glir o atebolrwydd yn cysylltu cyfrifoldeb corfforaethol y darparwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol sy'n cyflawni rôl rheolwr y gwasanaeth rheoleiddiedig.

- **Testun pob rheoliad**

Mae'n bwysig bod darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn cyfeirio at destun pob rheoliad fel y ffynhonnell wybodaeth gyntaf am y gofynion a sut mae eu bodloni. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio rhagor am sut i fodloni elfennau unigol pob rheoliad lle y gallai rhagor o eglurhad a diffiniad fod yn ddefnyddiol. Lle bydd testun y rheoliad yn hunanesboniadol, ni roddir rhagor o ganllawiau.

- **Canllawiau am ofynion elfennau unigol o'r rheoliad**

Ni ddylid ystyried bod y canllawiau am elfennau unigol pob rheoliad yn cynnwys pob sefyllfa oherwydd efallai y bydd modd i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ddangos eu bod yn bodloni pob elfen o'r rheoliad mewn ffyrdd eraill.

Mae Atodiad A yn nodi rhannau o'r Rheoliadau nad yw'r canllawiau hyn yn ymdrin â hwy gan na chawsant eu gwneud o dan adran 27 na 28 o'r Ddeddf. Yn Atodiad B ceir yr Atodlenni i reoliadau 28 and 36, 40, 41 and 63. Er gwybodaeth yn unig y cynhwyswyd yr atodiadau hyn.

¹ Mae'r safonau hyn yn gysylltiedig â'r datganiad llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. <http://gov.wales/docs/dhss/publications/160831well-being-statementcy.pdf>

Gorfodi

Mae Rhannau 2 i 16 o'r Rheoliadau'n rhestru'r gofynion clir y mae'n rhaid i ddarparwyr cofrestredig ac unigolion cyfrifol gadw atynt. Gall AGC, fel y rheoleiddiwr gwasanaethau, gymryd camau gorfodi yn erbyn unrhyw ddarparwr gwasanaeth cofrestredig ac unigolyn cyfrifol nad yw'n cadw at y gofynion cyfreithiol hyn.

Bydd unrhyw gamau gorfodi a gymerir gan AGC yn gymesur, a byddant yn edrych ar yr effaith ar unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth rheoleiddiedig neu'r risg i'r unigolion hynny.

Dyma rai enghreifftiau o'r camau gorfodi:

- gosod amodau ar gofrestrriad y darparwr gwasanaeth;
- canslo cofrestrriad y darparwr gwasanaeth;
- rhoi hysbysiad gwella; a
- rhoi hysbysiad cosb benodedig.

Mae rhagor o wybodaeth am y troseddau y gallai darparwyr gwasanaethau ac unigolion fod yn eu cyflawni os nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf a'r Rheoliadau hyn, a'r gwahanol gamau gorfodi statudol ac anstatudol y gall AGC eu cymryd mewn ymateb, wedi'u nodi ym mholisi Sicrhau Gwelliant a Gorfodi AGC, sydd ar gael ar ei gwefan.

Rhestr o'r prif dermau a ddefnyddir yn y canllawiau hyn

Term	Ystyr
Y Ddeddf	Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
Deddf 2014	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Lleoli Oedolion	Darparu llety, gofal a chymorth dan gytundeb lleoli oedolion.
Gofalwr lleoli oedolion	Unigolyn sydd wedi ymrwymo i gytundeb gofalwr â'r darparwr gwasanaeth i ddarparu llety a gofal a chymorth ar gyfer hyd at dri oedolyn.
Gwasanaeth Lleoli Oedolion	Fel y diffinnir ym Mharagraff 6 o Atodlen 1 i'r Ddeddf, "gwasanaeth a gynhelir (pa un ai er elw ai peidio) gan awdurdod lleol neu berson arall at ddibenion lleoli oedolion gydag unigolyn yng Nghymru o dan gytundeb gofalwr (ac mae'n cynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer recriwtio, hyfforddi a goruchwylio unigolion o'r fath)."
Gofal a chymorth	Y gofal a'r cymorth a ddarperir i unigolyn mewn lleoliad oedolion gan y gofalwr lleoli oedolion. Nid yw'n cynnwys cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth lleoli oedolion i'r gofalwr lleoli oedolion.
Cynllun gofal a chymorth	Cynllun a roddir ar waith gan yr awdurdod lleol o dan adran 54 (mewn perthynas ag oedolion, plant neu ofalwr) o Ddeddf 2014
Cytundeb gofalwr	Cytundeb rhwng y darparwr gwasanaeth a'r gofalwr lleoli oedolion. Caiff y cytundeb ei ddiffinio ym Mharagraff 6 o Atodlen 1 i'r Ddeddf fel "cytundeb ar gyfer darparu gan unigolyn lety yng nghartref yr unigolyn ynghyd â gofal a chymorth ar gyfer hyd at dri oedolyn."
Yr unigolyn	Yr unigolyn
Anghenion yr unigolyn	Anghenion gofal a chymorth yr oedolyn.
Cytundeb lleoli unigol	Cytundeb rhwng darparwr gwasanaeth, gofalwr lleoli oedolion ac unigolyn er mwyn i ofalwr lleoli oedolion ddarparu llety, gofal a chymorth i'r unigolyn hwnnw.
Canlyniadau personol	Y canlyniadau y mae'r unigolyn sy'n cael gofal a chymorth yn dymuno eu cyflawni yn ei fywyd o ddydd i ddydd
Cynllun personol	Y cynllun y mae'n ofynnol ei baratoi'n unol â rheoliad 13

Y Rheoliadau	Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019
Cynrychiolydd	Unrhyw un sydd â'r awdurdod cyfreithiol, neu gydsyniad yr unigolyn i weithredu ar ran yr unigolyn
Unigolyn cyfrifol (<i>Gweler disgrifiad llawn yn adran 21 o'r Ddeddf</i>)	<p>Rhaid i'r unigolyn cyfrifol fod yn un o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • os darperir y gwasanaeth gan unigolyn, darparwr y gwasanaeth; • os darperir y gwasanaeth gan bartneriaeth, un o'r partneriaid; • os darperir y gwasanaeth gan gorff corfforaethol nad yw'n awdurdod lleol <ul style="list-style-type: none"> ○ cyfarwyddwr neu swyddog tebyg arall yn y corff; ○ os darperir y gwasanaeth gan gwmni cyfyngedig cyhoeddus, cyfarwyddwr neu ysgrifennydd y cwmni; ○ os darperir y gwasanaeth gan gorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, un o aelodau'r corff; • os darperir y gwasanaeth gan gorff anghorfforedig, un o aelodau'r corff; • os darperir y gwasanaeth gan awdurdod lleol, un o swyddogion yr awdurdod lleol a ddynodir gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod; <p>ac y mae AGC yn fodlon ei fod yn unigolyn addas a phriodol i fod yn unigolyn cyfrifol;</p> <p>a'i fod wedi'i ddynodi gan ddarparwr gwasanaeth ar gyfer man y mae'r darparwr gwasanaeth yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef;</p> <p>a'i fod wedi'i bennu felly yng nghofrestriad y darparwr gwasanaeth</p> <p>DS Dan amgylchiadau penodol (gweler Rheoliad 12, sydd heb ei gynnwys yn y canllawiau hyn) caiff AGC ddynodi'r unigolyn cyfrifol (ar ran Gweinidogion Cymru) yn hytrach na'r darparwr gwasanaeth.</p>
GCC	Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu
Y gwasanaeth	Y gwasanaeth lleoli oedolion a ddarperir mewn cysylltiad â man a bennir yn un o amodau cofrestriad y darparwr gwasanaeth.
Comisiynydd gwasanaethau	Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am drefnu gyda'r darparwr gwasanaeth bod yr unigolyn yn cael gofal a chymorth.
Darparwr gwasanaeth	<p>Mae'n golygu un ai:</p> <p>a) Person neu sefydliad annibynnol sydd wedi'i gofrestru gydag</p>

	AGC i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig; neu b) Awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cynnal cynllun lleoli oedolion
Y rheoleiddiwr gwasanaethau	Yn ymarferol, ystyr hyn yw AGC yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddio.
Staff	<ul style="list-style-type: none"> • Pobl a gyflogir gan y darparwr gwasanaeth i weithio yn y gwasanaeth fel gweithiwr cyflogedig neu weithiwr (yn unol â'r ystyr yn adran 230 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996); • Pobl a gymerir ymlaen gan y darparwr gwasanaeth dan gontract ar gyfer gwasanaethau; • Nid yw hyn yn cynnwys y gofalwr lleoli oedolion nac unrhyw bobl y caniateir iddynt weithio fel gwirfoddolwyr.
Datganiad o ddiben	Y datganiad o ddiben ar gyfer y man y darperir y gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn cysylltiad ag ef.

Dolenni defnyddiol

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted>

Rheoliadau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/163/contents/made/welsh>

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents>

Llywodraeth Cymru: Datganiad Llesiant ar gyfer Pobl sydd angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr sydd angen Cymorth

<https://gov.wales/docs/dhss/publications/160831well-being-statementcy.pdf>

Arolygiaeth Gofal Cymru

<http://careinspectorate.wales/?skip=1&lang=cy>

Arolygiaeth Gofal Cymru: Canllawiau cofrestru (ar gyfer gwasanaethau newydd)

<https://arolygiaethgofal.cymru/cofrestrwch-i-ddarparu-gwasanaeth>

Arolygiaeth Gofal Cymru: Canllawiau ailgofrestru

<https://arolygiaethgofal.cymru/darparu-gwasanaeth-gofal/gwasanaethau-sydd-eiso-es-wedi-eu-cofrestru/ailgofrestru>

Arolygiaeth Gofal Cymru: Llunio Datganiad o Ddiben

<https://arolygiaethgofal.cymru/darparu-gwasanaeth-gofal/gwasanaethau-sydd-eiso-es-wedi-eu-cofrestru/ailgofrestru>

Arolygiaeth Gofal Cymru: Polisi Sicrhau Gwelliant a Gorfodi

<https://arolygiaethgofal.cymru/darparu-gwasanaeth-gofal/ein-dulliau-gorfodi>

Gofal Cymdeithasol Cymru

<https://gofalcymdeithasol.cymru/>

Gofal Cymdeithasol Cymru: Hyb Gwybodaeth a Dysgu

<https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan>

Pennod 1: Y Gofynion ar Ddarparwyr Gwasanaethau (Rhannau 2 i 11 o'r Rheoliadau)

1.1 Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau (Rhan 2)

Bwriad y gofynion cyffredinol yn Rhan 2 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod darparwyr gwasanaethau'n rhoi trefniadau llywodraethu ar waith i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n hwylus ac i sicrhau bod sylfaen gadarn ar gyfer darparu gofal a chymorth o ansawdd da i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i roi cymorth iddynt gyflawni eu canlyniadau personol. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gosod bwriad a chyfeiriad trefniadaethol clir drwy restru, yn y datganiad o ddiben, y gwasanaethau a ddarperir a'r camau y bydd y darparwr gwasanaeth yn ymgymryd â hwy i wneud yn siŵr bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cyflawni i'r safonau gofynnol;
- Rhoi ar waith y polisiâu a'r gweithdrefnau creiddiol i helpu rheolwyr a staff i gyflawni nodau'r gwasanaeth a chefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol;
- Creu strwythurau rheoli cadarn i oruchwyllo a monitro'r gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol i'r unigolion sy'n cael gofal a chymorth;
- Sefydlu trefniadau clir ar gyfer cylch parhaus o sicrhau ac adolygu ansawdd er mwyn rhoi sicrwydd bod y gwasanaeth yn gweithredu'n unol â gofynion cyfreithiol a'i ddatganiad o ddiben a'i fod yn helpu unigolion yn briodol. Bydd yr wybodaeth a geir drwy fonitro'n cael ei defnyddio ar gyfer datblygu a gwella'r gwasanaeth yn barhaus;
- Parhau i oruchwyllo'r trefniadau ariannol a'r buddsoddi yn y busnes er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol fel bod yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael cymorth i gyflawni eu canlyniadau personol a'u bod yn cael eu gwarchod rhag y perygl o ddileu neu newid gwasanaethau a ddarperir heb i hynny gael ei gynllunio, yn sgil pwysau ariannol; ac
- Hyrwyddo diwylliant o fod yn agored, yn ddidwyll ac yn onest ar bob lefel.

Rheoliad 2	Canllawiau
<p>Gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth</p> <p>2. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgil digonol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y darparwyr gwasanaethau drefniadau clir i oruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth er mwyn sefydlu, datblygu a gwreiddio diwylliant sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion a gofalwyr lleoli oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i fodloni gofynion y Rheoliadau hyn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ polisïau a gweithdrefnau i gyflawni nodau'r datganiad o ddiben ac i roi unigolion a gofalwyr lleoli oedolion yng nghanol y gwasanaeth; ○ systemau sy'n sicrhau cydweddu wrth baru unigolion â gofalwyr lleoli oedolion; ○ systemau i asesu, cynllunio gofal, monitro ac adolygu sy'n cefnogi arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n galluogi unigolion a gofalwyr lleoli oedolion i gyflawni canlyniadau personol yr unigolyn; ○ prosesau i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn ffordd gyson a dibynadwy; ○ trefniadau staffio diogel, wedi'u hategu gan ddatblygiad proffesiynol, i gefnogi gofalwyr lleoli oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolion; ○ systemau ansawdd ac archwilio i adolygu cynnydd a llywio datblygiad y gwasanaeth; ○ ymagwedd ragweithiol at gyfle cyfartal ac amrywiaeth; ac ○ safleoedd, cyfleusterau a chyfarpar addas a hygyrch.

Rheoliad 3	Canllawiau
<p>Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben</p> <p>3.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) cadw'r datganiad o ddiben o dan adolygiad, a</p> <p>(b) pan fo'n briodol, ddiwygio'r datganiad o ddiben.</p> <p>(3) Oni bai bod paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad sydd i'w wneud i'r datganiad o ddiben o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y mae i gymryd effaith.</p> <p>(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn achosion pan fo'n angenrheidiol diwygio'r datganiad o ddiben gydag effaith ar unwaith.</p> <p>(5) Os yw paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth, yn ddi-oed, hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad a wneir i'r datganiad o ddiben.</p> <p>(6) Y personau y mae rhaid iddynt gael eu hysbysu am unrhyw ddiwygiad i'r datganiad o ddiben yn unol â pharagraff (3) neu (5) yw—</p> <p>(a) y rheoleiddiwr gwasanaethau,</p> <p>(b) yr unigolyn,</p> <p>(c) y gofalwr lleoli oedolion,</p> <p>(d) unrhyw gynrychiolydd, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny neu y byddai gwneud hynny yn anghyson â llesiant</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r datganiad o ddiben yn hanfodol i'r gwasanaeth. Dylai: <ul style="list-style-type: none"> ○ ddisgrifio'r gwasanaethau a ddarperir yn gywir, gan gynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer darparu seibiant byr; ○ dweud ymhle a sut darperir y gwasanaethau hyn; ac ○ nodi'r trefniadau i gefnogi sut caiff y gwasanaethau eu darparu. • Rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth sydd yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017². • Wrth baratoi datganiad o ddiben, bydd y darparwr gwasanaethau yn ystyried unrhyw ganllawiau ynghylch datganiad o ddiben a ddarperir gan y rheoleiddiwr gwasanaethau. • Bydd darparwyr gwasanaethau yn adolygu'r datganiad o ddiben o leiaf unwaith y flwyddyn ac yn ei diweddarau bob blwyddyn o leiaf, neu'n gynharach os oes newidiadau'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth a ddarperir. • Os bwriedir newid y gwasanaeth a ddarperir, bydd y datganiad o ddiben yn cael ei diweddarau i adlewyrchu'r newid hwnnw. Bydd y darparwr yn rhoi gwybod i'r unigolion hynny a nodir yn rheoliad 3(6) o leiaf 28 diwrnod cyn gwneud y newidiadau. Enghraifft o hyn yw newidiadau i'r trefniadau

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/1098/contents/made>. Diwygiwyd gan Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol a Chofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2019 <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/233/made>

unigolyn,

(e) comisiynydd y gwasanaeth.

(7) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r datganiad o ddiben cyfredol i unrhyw berson ar gais, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny neu y byddai gwneud hynny yn anghyson â llesiant unigolyn.

neu'r lefelau staffio arferol fel sydd wedi'u nodi yn y datganiad o ddiben sy'n bodoli'n barod.

- Lle bo bwriad i wneud newidiadau'n syth i'r gwasanaeth a ddarperir, h.y. o fewn y cyfnod hysbysu 28 diwrnod (fel sy'n ofynnol gan reoliad 6(3)), er enghraifft mewn ymateb i gais brys, bydd y darparwr gwasanaeth:
 - yn rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr gwasanaethau yn syth (a, lle bo hynny'n ymarferol cyn rhoi'r newid ar waith); ac
 - yn diweddarau'r datganiad o ddiben yn ddi-oed i adlewyrchu'r newid ac yn rhoi copi i'r rheoleiddiwr gwasanaethau.
- Os cynigir newid y datganiad o ddiben, bydd y darparwr gwasanaeth yn bodloni rheoleiddiwr y gwasanaeth ei fod yn gallu darparu'r gwasanaethau a gynigir drwy, er enghraifft, roi rhagor o wybodaeth neu drefnu ymweliad gan y rheoleiddiwr â'r gwasanaeth (lle y bo hynny'n briodol).
- Os caiff y datganiad o ddiben ei ddiweddarau, cedwir cofnod o'r fersiwn a'r dyddiad diwygio.
- Mae copi o'r datganiad o ddiben ar gael yn hwylus i'r rhai a restrir yn rheoliad 3(6).

Rheoliad 4	Canllawiau
<p>Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella</p> <p>4.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.</p> <p>(2) Rhaid i'r trefniadau hynny gynnwys trefniadau ar gyfer ceisio safbwyntiau—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) unigolion, (b) unrhyw gynrychiolwyr, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant yr unigolyn, (c) gofalwyr lleoli oedolion, (d) comisiynwyr gwasanaethau, ac (e) staff, <p>ar ansawdd y gwasanaeth a sut y gellir gwella hyn.</p> <p>(3) Wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gwasanaeth, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) ystyried safbwyntiau'r personau hynny yr ymgynghorir â hwy yn unol â pharagraff (2), a (b) rhoi sylw i'r adroddiad ar ansawdd gofal a lunnir gan yr unigolyn cyfrifol yn unol â rheoliad 59(4). 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys nodi: <ul style="list-style-type: none"> ○ pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn cael ei wneud; ○ sut bydd hyn yn cael ei wneud; ○ pa mor aml mae hyn yn digwydd; ac ○ trefniadau i'r unigolyn cyfrifol adrodd wrth y darparwr gwasanaeth. • Caiff canlyniad unrhyw adolygiad ei ddadansoddi a'i adolygu gan bobl sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd priodol i ddeall ei arwyddocâd ac i gymryd camau i sicrhau bod pethau'n gwella. Mae darparwyr gwasanaethau'n ceisio cyngor proffesiynol/arbenigol yn ôl yr angen ac yn brydlon i helpu i sicrhau welliannau. • Mae darparwyr gwasanaethau'n gallu dangos sut maent: <ul style="list-style-type: none"> ○ wedi dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd ac ymateb iddi; ac ○ wedi defnyddio'r wybodaeth i wella pethau. • Mae darparwyr gwasanaethau'n monitro'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn cymryd camau priodol ar unwaith oni lwyddir i sicrhau'r cynnydd disgwylidig. • Mae'r systemau a'r prosesau'n cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn galluogi'r darparwr gwasanaeth i weld ymhle y mae neu y gallai rhywbeth amharu ar ansawdd y

	<p>gwasanaethau ac i alluogi ymateb priodol yn brydlon.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fel rhan o'r broses adolygu ansawdd, bydd darparwyr gwasanaethau: <ul style="list-style-type: none"> ○ yn annog adborth; ○ yn ceisio barn gofawyr lleoli oedolion ac unigolion yn rheolaidd am ansawdd y gofal a'r cymorth mewn lleoliadau; ○ yn gallu dangos eu bod wedi gwneud hyn a rhoi dadansoddiad o'r adborth y maent wedi'i gael; ac ○ adolygu ansawdd safleoedd y lleoliadau. • Mae'r dulliau a ddefnyddir i gysylltu â'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a restrir yn rheoliad 4(2), ac i gael eu barn, yn briodol i'w hoed, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried eu cyflwr penodol a/neu unrhyw anghenion o ran cyfathrebu. • Defnyddir gwybodaeth a gesglir drwy'r systemau ansawdd ac archwilio i ddatblygu'r adroddiad adolygu ansawdd gofal yn unol â rheoliad 59(4).
--	--

Rheoliad 5	Canllawiau
<p>Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol</p> <p>5.—(1) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth sy'n unigolyn. (2) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo sicrhau bod y person sydd wedi ei ddynodi fel yr</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau systemau a phrosesau i gynnal trafodaethau ffurfiol a rheolaidd â'r unigolyn cyfrifol, ac i roi cymorth iddo. • Mae'r darparwyr gwasanaethau'n rhoi cymorth i'r unigolyn cyfrifol ddilyn hyfforddiant sy'n ei alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol a chyflawni nodau'r gwasanaeth fel y maent yn y

<p>unigolyn cyfrifol(3)—</p> <p>(a) yn cael cymorth i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol, a</p> <p>(b) yn ymgymryd â hyfforddiant priodol.</p> <p>(3) Os bydd gan y darparwr gwasanaeth reswm dros gredu nad yw'r unigolyn cyfrifol wedi cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliadau yn Rhannau 12 i 16, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) cymryd unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r gofyniad, a</p> <p>(b) hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau.</p> <p>(4) Yn ystod unrhyw adeg pan nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer—</p> <p>(a) rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol,</p> <p>(b) goruchwyllo'r gwasanaeth yn effeithiol,</p> <p>(c) cydymffurfedd y gwasanaeth â gofynion y rheoliadau yn Rhannau 2 i 11, a</p> <p>(d) monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.</p> <p>(5) Os nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau a hynny am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau, a</p> <p>(b) rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y trefniadau interim.</p>	<p>datganiad o ddiben ac yn unol â'r canllawiau ymarfer a argymhellir gan GCC. Mae hyfforddiant ar gyfer unigolion cyfrifol yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • fframwaith deddfwriaethol a gofynion; • dyletswyddau penodol unigolyn cyfrifol; • perfformiad gwasanaeth a rheoli ansawdd; ac • llywio diwylliant gwasanaeth, ac ati. <ul style="list-style-type: none"> • Os bydd unigolyn cyfrifol wedi methu â chyflawni ei rôl bydd y darparwr gwasanaeth yn hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth am unrhyw gamau a gymerwyd a, lle y bo hynny'n berthnasol, yn ei gynghori ynghylch y trefniadau ar gyfer dynodi rhywun yn ei le. • Os nad oes unigolyn cyfrifol neu os nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am ba bynnag reswm, er enghraifft am ei fod yn absennol o'i rôl oherwydd salwch, bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y cyfrifoldeb dros orchwyllo'r gwaith o reoli'r gwasanaeth, fel y nodir yn Rhannau 12 i 16 o'r Rheoliadau, yn cael ei fodloni o dan drefniadau amgen.
---	--

Rheoliad 6	Canllawiau
<p>Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn dilyn hyfforddiant a fydd yn ei alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol a chyflawni nodau'r gwasanaeth fel y maent yn y datganiad o ddiben ac yn unol â'r canllawiau ymarfer a argymhellir gan GCC. Mae

3 Fel y'i diffinnir yn adran 21(1) o'r Ddeddf.

<p>6.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn.</p> <p>(2) Os yw'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r unigolyn ymgymryd â hyfforddiant priodol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau'n briodol fel yr unigolyn cyfrifol.</p> <p>(3) Yn ystod unrhyw adeg pan yw'r darparwr gwasanaeth yn absennol, rhaid i'r iunigolyn sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer—</p> <p>(a) rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol,</p> <p>(b) goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol,</p> <p>(c) cydymffurfedd y gwasanaeth â gofynion y rheoliadau yn Rhannau 2 i 11, a</p> <p>(d) monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.</p> <p>(4) Os nad yw'r unigolyn yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau fel unigolyn cyfrifol am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid iddo—</p> <p>(a) hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau, a</p> <p>(b) rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y trefniadau interim.</p>	<p>hyfforddiant yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ fframwaith deddfwriaethol a gofynion; ○ dyletswyddau penodol unigolyn cyfrifol; ○ perfformiad gwasanaeth a rheoli ansawdd; ac ○ llywio diwylliant gwasanaeth, ac ati. <ul style="list-style-type: none"> ● Os na fydd yr unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am ba bynnag reswm, er enghraifft am ei fod yn absennol o'i rôl oherwydd salwch, bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau amgen ar waith er mwyn sicrhau bod y gofynion yn rheoliad 6(3) yn cael eu bodloni.
---	--

Rheoliad 7	Canllawiau
<p>Gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth</p> <p>7.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn ariannol at ddiben cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y datganiad o ddiben.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnal cyfrifon priodol a</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Mae systemau ar waith i sicrhau bod gwaith cynllunio ariannol, monitro'r gyllideb a rheolaeth ariannol i gyd yn cael eu gwneud yn effeithiol. ● Mae systemau ar waith i sicrhau sefydlogrwydd ariannol a diogelu'r defnyddiwr yn unol ag unrhyw ganllawiau cenedlaethol a rheoliadau ariannol. ● Mae gan ddarparwyr gwasanaethau yr adnoddau ariannol

chyfredol ar gyfer y gwasanaeth.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu copïau o'r cyfrifon i Weinidogion Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau i gael cais i wneud hynny.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gyfrifon gael eu hardystio gan gyfrifydd.

sydd eu hangen i ddarparu ac i barhau i ddarparu'r gwasanaethau a ddisgrifir yn y datganiad o ddiben ac er mwyn bodloni gofynion y Rheoliadau.

- Mae gan ddarparwyr gwasanaethau yswiriant a threfniadau digolledu priodol i warchod rhag rhwymedigaethau posibl yn sgil marwolaeth, anaf, neu achosion eraill, colled neu ddifrod i eiddo, a risgiau ariannol eraill.
- Os na fydd cyfrifon archwilledig ar gael, bydd cyfrifon blynyddol yn cael eu cwblhau gan gyfrifydd cymwys at bwrpas rheoleiddio ac archwilio.
- Mae'r cyfrifon yn dangos bod y gwasanaeth yn ariannol hyfyw ac yn debygol o fod â digon o arian i barhau i gyflawni'r gwaith o ddarparu ei wasanaethau fel y nodir yn ei ddatganiad o ddiben.
- Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod taliadau prydlon yn cael eu gwneud i ofalwyr lleoli oedolion ar gyfer unrhyw lwfansau neu dreuliau y cytunir arnynt, sy'n cwmpasu costau darparu gofal a chymorth i unigolyn.
- Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn deall y cymorth ariannol neu'r cymorth arall sydd ar gael iddynt.

Rheoliad 8	Canllawiau
<p>Gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau</p> <p>8.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau a ganlyn yn eu lle ar gyfer y gwasanaeth—</p> <p>(a) addasrwydd y gwasanaeth (gweler rheoliad 10);</p> <p>(b) diogelu (gweler rheoliad 22);</p> <p>(c) cefnogi unigolion i reoli eu harian (gweler rheoliad 23);</p> <p>(d) defnyddio rheolaeth neu ataliaeth yn briodol (gweler rheoliad 24);</p> <p>(e) cefnogi a datblygu staff (gweler rheoliad 29);</p> <p>(f) gweithdrefn ddisgyblu (gweler rheoliad 32);</p> <p>(g) recriwtio a hyfforddi gofalwyr lleoli oedolion (gweler rheoliad 33);</p> <p>(h) cwynion (gweler rheoliad 43);</p> <p>(i) chwythu'r chwiban (gweler rheoliad 44).</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael unrhyw bolisïau a gweithdrefnau eraill yn eu lle sy'n rhesymol angenrheidiol i gefnogi nodau ac amcanion y gwasanaeth a nodir yn y datganiad o ddiben.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod cynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol iddynt fod yn eu lle yn rhinwedd paragraffau (1) a (2)—</p> <p>(a) yn briodol i anghenion unigolion y darperir gofal a chymorth ar eu cyfer a'u gofalwyr lleoli oedolion,</p> <p>(b) yn gyson â'r datganiad o ddiben, ac</p> <p>(c) yn cael eu cadw'n gyfredol.</p> <p>(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau y polisïau a'r gweithdrefnau ar waith fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau. • Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gymesur â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben. Lle bo'n gymwys, mae polisïau a gweithdrefnau'n ystyried anghenion aelodau eraill o aelwyd y gofalwyr lleoli oedolion. • Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer seibiannau tymor byr i unigolion, lle darperir y rhain gan y darparwr gwasanaeth. • Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau: <ul style="list-style-type: none"> ○ yn cyd-fynd ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol; ○ yn cynnig arweiniad i staff er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â'r datganiad o ddiben; ac ○ yn pennu'r gofynion a fydd yn rhoi gwybod i unigolion, gofalwyr lleoli oedolion ac unrhyw gynrychiolwyr am sut darperir y gwasanaeth. • Caiff y polisïau, y gweithdrefnau a'r arferion eu hadolygu a'u diweddarau yng ngoleuni newidiadau i arferion, deddfwriaeth sy'n newid ac argymhellion ynglŷn â'r arferion gorau. • Mae cyfle i'r staff, yr unigolion a'r gofalwyr lleoli oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ymwneud â datblygu polisïau a gweithdrefnau.

	<ul style="list-style-type: none"> • Os bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r datganiad o ddiben, bydd y polisiau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau. • Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar y polisiau a'r gweithdrefnau sy'n help iddynt yn eu rôl o sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion, a'u bod yn gwybod am y polisiau a'r gweithdrefnau hynny ac yn eu deall. • Mae'r holl bolisiau a gweithdrefnau ar gael, ar gais, i'r unigolion a'r gofalwyr lleoli oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, i unrhyw gynrychiolwyr a, lle y bo hynny'n briodol, i'r awdurdodau perthnasol sy'n lleoli. • Mae'r polisiau a'r gweithdrefnau ar fformat hygyrch i'r unigolyn a gofalwyr lleoli oedolion, a darperir cymorth i'w helpu i'w deall. • Mae systemau ar gyfer monitro a gwella yn cynnwys rhai sy'n sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu cynnal yn unol â'r polisiau a'r gweithdrefnau.
--	---

Rheoliad 9	Canllawiau
<p>Dyletswydd gonestrwydd</p> <p>9. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth weithredu mewn ffordd agored a thryloyw gydag—</p> <p>(a) yr unigolyn,</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau bolisiau a gweithdrefnau ar waith a fydd yn cefnogi diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw, a fydd yn sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol ohonynt ac yn eu dilyn. Mae'r polisiau a gweithdrefnau hyn yn dilyn ac yn ystyried canllawiau GCC ar ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym

- (b) unrhyw gynrychiolydd yr unigolyn,
- (c) y gofalwr lleoli oedolion, a
- (d) comisiynydd y gwasanaeth.

maes gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru â GCC.

- Mae darparwyr gwasanaethau'n hybu diwylliant sy'n annog pawb i fod yn onest sy'n cynnwys:
 - bod yn agored ac yn onest ac ymgysylltu â'r rhai a restrir yn rheoliad 9 (a)–(d);
 - darparu gwybodaeth am ddigwyddiadau a chanlyniad unrhyw ymchwiliadau sydd wedi'u cynnal; ac
 - cynnig ymddiheuriad am yr hyn sydd wedi digwydd, lle y bydd gwneud hynny yn briodol.
- Mae darparwyr gwasanaethau'n cymryd camau i atal bwlio, erlyn a/neu aflonyddu ac yn mynd i'r afael â'r rhain yn briodol, gyda golwg ar y ddyletswydd i fod yn onest, ac i ymchwilio i unrhyw ddigwyddiad lle mae'n bosibl bod aelod o'r bwrdd, unigolyn cyfrifol, aelod o'r staff neu unrhyw unigolyn arall wedi rhwystro rhywun arall rhag cyflawni ei ddyletswydd yntau i fod yn onest.
- Mae gan ddarparwyr gwasanaethau system ar waith i sylwi ar achos posibl o dorri'r ddyletswydd gonestrwydd gan staff sydd wedi'u cofrestru'n broffesiynol, ac i ymdrin â hynny. Gall hyn gynnwys rhwystro rhywun arall rhag cyflawni ei ddyletswydd broffesiynol i fod yn onest. Mae camau a gymerir i fynd i'r afael â thorri amodau o'r fath yn cynnwys, lle y bo hynny'n briodol, gyfeirio rhywun at y rheoleiddiwr proffesiynol neu at gorff perthnasol arall.

1.2 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd cyn cytuno i ddarparu gofal a chymorth (Rhan 3)

Bwriad gofynion Rhan 3 o'r Rheoliadau yw rhoi sicrwydd i unigolion bod darparwr gwasanaeth wedi ystyried ystod eang o wybodaeth cyn cynnig gofal a chymorth i gadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion yr unigolyn ac yn gallu rhoi cymorth iddo gyflawni ei ganlyniadau personol. Mae hyn yn cynnwys dymuniadau'r unigolyn a'r hyn sydd orau ganddo, ac ymgynghori â'r bobl a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.

Rheoliad 10	Canllawiau
<p>Addasrwydd y gwasanaeth</p> <p>10.—(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth gytuno i leoli unigolyn oni bai bod y darparwr gwasanaeth wedi penderfynu bod lleoliad oedolyn addas a all ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a chefnogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle ar addasrwydd y gwasanaeth.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth wrth wneud penderfyniad o dan baragraff (1) ystyried—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) cynllun gofal a chymorth yr unigolyn, (b) os nad oes cynllun gofal a chymorth, asesiad y darparwr gwasanaeth o dan baragraff (4), (c) unrhyw asesiadau iechyd neu unrhyw asesiadau perthnasol eraill, (d) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn, (e) unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn, (f) unrhyw risgiau i lesiant unigolion eraill y darperir gofal a 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'r darparwyr gwasanaethau gael polisi a gweithdrefnau ar waith ar leoliadau a chychwyn y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ y trefniadau ar gyfer cadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu rhoi cymorth i'r unigolyn gyflawni ei ganlyniadau personol neu beidio; ○ proses i sicrhau cydweddu wrth baru unigolion â gofalwr lleoli oedolion; ○ y bobl yr ymgynghorir â hwy fel rhan o'r broses; ○ yr wybodaeth i'w hystyried; ○ y prosesau asesu (gan gynnwys ar gyfer derbyn achosion brys) lle nad oes cynllun gofal a chymorth ar gael a phwy fydd yn cynnal yr asesiad; ○ dan ba amgylchiadau na fydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu; ○ cyfleoedd i aros gyda / ymweld â'r gofalwyr lleoli oedolion ac aelodau eraill o'r aelwyd; ac ○ y trefniadau ar gyfer cychwyn y gwasanaeth.

<p>chymorth iddynt,</p> <p>(g) unrhyw risgiau i lesiant y gofalwr lleoli oedolion ac aelodau o'i aelwyd,</p> <p>(h) unrhyw addasiadau rhesymol y gallai'r darparwr gwasanaeth eu gwneud i alluogi i anghenion gofal a chymorth yr unigolyn gael eu diwallu, ac</p> <p>(i) polisi a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth ar baru ar gyfer cydweddu a chychwyn y gwasanaeth.</p> <p>(4) Mewn achos pan na fo gan yr unigolyn gynllun gofal a chymorth, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) asesu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn, a</p> <p>(b) nodi ei ganlyniadau personol.</p> <p>(5) Rhaid i'r asesiad sy'n ofynnol gan baragraff (4) gael ei gynnal gan berson sydd—</p> <p>(a) â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwysedd i gynnal yr asesiad, a</p> <p>(b) wedi cael hyfforddiant i gynnal asesiadau.</p> <p>(6) Wrth wneud y penderfyniad ym mharagraff (1), rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys yr unigolyn ac unrhyw gynrychiolydd. Ond nid yw'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gynnwys cynrychiolydd—</p> <p>(a) os nad yw'r unigolyn yn dymuno i'r cynrychiolydd gael ei gynnwys, neu</p> <p>(b) pe byddai cynnwys y cynrychiolydd yn anghyson â llesiant yr unigolyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff crynodeb o'r weithdrefn baru a lleoli ei gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yn llawlyfr y darparwr gwasanaeth (gweler rheoliad 16). • Cyn cytuno i ddarparu gwasanaeth, mae'r darparwr gwasanaeth yn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn ag a yw'n gallu diwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn ai peidio. Wrth benderfynu fel hyn, bydd y darparwr gwasanaeth: <ul style="list-style-type: none"> ○ yn ystyried y gofynion sydd wedi'u nodi yn rheoliad 10(3); ○ yn ymgynghori â'r unigolyn a'r awdurdod sy'n lleoli (lle bo'n berthnasol) i benderfynu beth sy'n bwysig i'r unigolyn; ○ yn ystyried unrhyw gynllun gofal a chymorth cyfredol; ○ yn ystyried unrhyw risgiau i'r unigolyn, y gofalwr lleoli oedolion, aelodau o deulu'r gofalwr lleoli oedolion, unrhyw un arall sy'n byw ar yr aelwyd mewn trefniant lleoli oedolion, a'r staff; ac ○ yn cael gwybodaeth am anghenion arbenigol yr unigolyn a'i ofynion er mwyn cadarnhau bod modd diwallu'r rhain. • Bydd yr wybodaeth geir yn ddigonol i alluogi cyfnod pontio hwylus wrth i'r unigolyn gael ei leoli. • Mae ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei roi gyda gofalwr lleoli oedolion addas, ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i effaith bosibl y lleoliad ar yr unigolyn, y gofalwr lleoli oedolion ac aelodau o deulu'r gofalwr lleoli oedolion.
--	---

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y bobl sy'n gwneud y penderfyniadau hyn ar ran y darparwr gwasanaeth ddigon o gyfrifoldeb ac awdurdod yn y sefydliad i allu penderfynu a all y gwasanaeth ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. • Gall yr unigolyn ymweld â chartref y gofalwr lleoli oedolion ac aros yno fel rhan o gyfnod prawf cyn gwneud penderfyniad i gael ei leoli yno. Bydd hyd unrhyw gyfnod prawf yn gymesur â hyd y cyfnod lleoli disgwylidig (seibiant byr neu am gyfnod hir). • Mae unrhyw gyfnod prawf yn galluogi i'r unigolyn wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ cyfarfod ag aelodau eraill o aelwyd y gofalwr lleoli oedolion; ac ○ gweld y cartref, ystafell wely'r unigolyn a'r gymuned leol. • Os na fydd gan unigolyn gynllun gofal a chymorth presennol – er enghraifft unigolion sy'n talu am eu gofal eu hunain – cynhelir asesiad cyn cytuno i ddarparu gwasanaeth, yn unol â rheoliad 10(4). • Pan fo'n angenrheidiol i'r darparwr gwasanaeth gynnal ei asesiad ei hun o'r unigolyn, bydd yr asesiad yn nodi: <ul style="list-style-type: none"> ○ canlyniadau personol yr unigolyn; ○ y gofal a'r cymorth sydd eu hangen i helpu'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol; ○ yr hyn sydd orau gan yr unigolyn (gan ystyried unrhyw gredoau crefyddol) o ran sut gellir cyflawni'r rhain; ac
--	--

	<ul style="list-style-type: none">○ unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn neu'r risgiau i lesiant aelodau eraill o'r aelwyd a sut mae mynd ati i'w lliniaru.• Bydd unrhyw asesiad yn cael ei gwblhau drwy ymgynghori â'r unigolyn a/neu â'i gynrychiolydd.• Pan fo'r gwasanaeth lleoli oedolion yn cynnal ei asesiad ei hun o'r unigolyn, mae'n sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r wybodaeth gywir i wneud hynny, yn unol â rheoliad 10(5).• Os lleolir unigolyn mewn argyfwng, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau cymaint o wybodaeth â phosibl (gan gynnwys asesiadau perthnasol) cyn ei leoli a sicrhau bod modd i'r gwasanaeth ddiwallu ei anghenion.
--	--

1.3 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd wrth gychwyn darparu gofal a chymorth (Rhan 4)

Bwriad Rhan 4 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod modd i unigolion deimlo'n hyderus bod gan ddarparwyr gwasanaethau:

- Gytundeb rhwng y darparwr gwasanaeth a'r gofalwr lleoli oedolion;
- Cytundeb lleoli unigol rhwng y darperir y gwasanaeth, y gofalwr lleoli oedolion a'r unigolyn; ac
- Cynllun manwl wedi'i ddiweddarau (y cyfeirir ato fel y cynllun personol) sy'n nodi'r ffordd y dylid darparu eu gofal.

Rheoliad 11	Canllawiau
<p>Cytundeb gofalwr</p> <p>11.—(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth leoli unigolyn gyda gofalwr lleoli oedolion oni bai bod y darparwr gwasanaeth wedi ymrwymo i gytundeb gofalwr â'r gofalwr lleoli oedolion.</p> <p>(2) Rhaid i'r cytundeb gofalwr fod yn ysgrifenedig.</p> <p>(3) Ni chaiff darparwr gwasanaeth ymrwymo ond i un cytundeb gofalwr â phob gofalwr lleoli oedolion.</p> <p>(4) Rhaid i'r cytundeb gofalwr—</p> <p>(a) darparu bod y partion i'r cytundeb gofalwr yn ymgymryd â'u rolau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth;</p> <p>(b) cynnwys trefniadau i sicrhau bod y mangreoedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir gan ofalwyr lleoli oedolion—</p> <p>(i) yn addas ac yn ddiogel i'r diben y bwriedir iddynt gael eu defnyddio ato;</p> <p>(ii) yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel;</p> <p>(iii) yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol;</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y darparwr gwasanaeth a'r gofalwyr lleoli oedolion wedi cytuno ar gytundeb gofalwr, sy'n cwmpasu pob unigolion a leolir gyda'r gofalwr. • Mae'r cytundeb gofalwr hwn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ rolau a chyfrifoldebau perthnasol y darparwr gwasanaeth a'r gofalwyr lleoli oedolion; ○ y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i ofalwr lleoli oedolion weithredu yn unol â nhw; ○ y trefniadau y bydd y darparwr gwasanaeth yn eu rhoi ar waith i asesu ac adolygu'r safle, y cyfleusterau a'r cyfarpar i'w defnyddio gan y gofalwr lleoli oedolion i ddarparu gofal a chymorth mewn lleoliad posibl i oedolion; ○ unrhyw ofynion i gefnogi unigolyn i gael mynediad at driniaethau, cyngor neu unrhyw wasanaethau eraill gan weithiwr gofal iechyd neu weithiwr proffesiynol arall;

<p>(iv) yn cael eu cadw'n lân yn unol â safon sy'n briodol i'r diben y maent yn cael eu defnyddio ato;</p> <p>(v) yn achos cyfarpar, yn cael ei storio'n briodol;</p> <p>(c) cynnwys gofyniad y dylai'r gofalwr lleoli oedolion gefnogi'r unigolyn i gael mynediad i driniaeth, cyngor a gwasanaethau eraill gan unrhyw broffesiynolyn gofal iechyd fel y bo angen;</p> <p>(d) cynnwys trefniadau i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio a'u rhoi'n ddiogel gan gynnwys pennu o dan ba amgylchiadau y caiff gofalwr lleoli oedolion roi neu gynorthwyo i roi meddyginiaeth unigolyn a'r gweithdrefnau sydd i'w mabwysiadu o dan amgylchiadau o'r fath;</p> <p>(e) cynnwys trefniadau addas i gefnogi unigolion i reoli eu harian.</p> <p>(5) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth derfynu cytundeb gofalwr mewn unrhyw achos pan fo'r gofalwr lleoli oedolion yn peidio â bod yn addas i fod yn ofalwr lleoli oedolion yn unol â rheoliad 36.</p> <p>(6) Heb ragfarnu paragraff (5), rhaid i'r darparwr gwasanaeth derfynu cytundeb gofalwr mewn unrhyw achos pan fo'n ymddangos i'r darparwr gwasanaeth nad yw neu na fydd y gofalwr lleoli oedolion yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y cytundeb gofalwr.</p> <p>(7) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth derfynu cytundeb gofalwr heb ymgynghori'n gyntaf â'r gofalwr lleoli oedolion, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol ymgynghori ag ef.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ y trefniadau ar gyfer storio a gweinyddu meddyginiaethau (lle bo hynny'n berthnasol); ○ y trefniadau i gefnogi unigolion i reoli eu harian; ○ gwybodaeth am y costau sy'n daladwy gan y darparwr gwasanaeth i'r gofalwyr lleoli oedolion; ac ○ gwybodaeth sy'n ymwneud â therfynu'r cytundeb gofalwr. <ul style="list-style-type: none"> ● Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau effeithiol ar waith i fonitro ac adolygu'r rhwymedigaethau a osodir ar ofalwyr lleoli oedolion fel y nodir yn y cytundeb gofalwr. ● Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cymryd camau i gydymffurfio â'r cytundeb gofalwr lle y nodir nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd. ● Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau i sicrhau y caiff y cytundeb gofalwr ei derfynu yn amserol ac yn effeithiol. Lle bo'r terfynu arfaethedig yn effeithio ar leoliad presennol unigolyn, mae'r darparwr gwasanaeth yn ymgynghori â'r awdurdod lleoli perthnasol. ● Lle bo'n briodol, mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod gan ofalwyr lleoli oedolion y cyfle i ymateb i unrhyw bryderon sydd gan y darparwr gwasanaeth ynghylch eu haddasrwydd i fod yn ofalwr lleoli oedolion, cyn unrhyw benderfyniad i derfynu lleoliad.
--	---

Rheoliad 12	Canllawiau
<p>Cytundeb lleoli unigolyn</p> <p>12.—(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth leoli unigolyn gyda gofalwr lleoli oedolion oni bai bod y darparwr gwasanaeth wedi ymrwymo i gytundeb lleoli unigolyn â'r gofalwr lleoli oedolion. (2) Rhaid bod cytundeb lleoli unigolyn ar gyfer pob unigolyn sydd i'w leoli gyda'r gofalwr lleoli oedolion. (3) Pryd bynnag y bo'n ymarferol, rhaid i'r unigolyn fod yn barti i'r cytundeb, a rhaid rhoi copi iddo o'r cytundeb wedi ei lofnodi sy'n ymwneud â'r gofal a'r cymorth sydd i'w darparu i'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol. (4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys mewn cytundeb lleoli unigolyn wybodaeth sy'n galluogi pob parti sy'n ymwneud â'r cytundeb i ddeall ei rolau a'i gyfrifoldebau. (5) Rhaid i'r cytundeb lleoli unigolyn hefyd gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—</p> <p>(a) pryd bynnag y bo'n ymarferol, enw unigolyn ac eithrio aelod o staff y darparwr gwasanaeth, yr unigolyn cyfrifol neu'r gofalwr lleoli oedolion, sydd, gyda chydysniad datganedig neu oblygedig yr unigolyn, yn cymryd diddordeb yn iechyd a lles yr unigolyn;</p> <p>(b) yr ystafell sydd i'w meddiannu gan yr unigolyn yng nghartref y gofalwr lleoli oedolion;</p> <p>(c) y ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r lleoliad a chan bwy y maent yn daladwy.</p> <p>(6) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod unigolion yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w galluogi i ddeall yr wybodaeth a gynhwysir mewn unrhyw gytundeb o'r fath.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff y gofalwr lleoli oedolion a'r unigolyn perthnasol sy'n defnyddio'r gwasanaeth gopi o'r cytundeb sy'n nodi: <ul style="list-style-type: none"> ○ yr wybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir; ○ gwybodaeth am y costau sy'n daladwy gan yr unigolyn ac unrhyw geisiadau eraill sy'n cael eu talu gan yr awdurdod lleoli; ○ telerau ac amodau'r lleoliad gan gynnwys yr ystafell i'w meddiannu, disgwyliadau materion ymarferol (gan gynnwys unrhyw reolau y cytunwyd arnynt i'r unigolyn eu dilyn), terfynu contractau, cyfnod rhybudd ac ati; ac ○ rhestr o bolisïau a gweithdrefnau allweddol y darparwyr gwasanaethau a gofynion pob parti i gadw atynt. • Os bydd unigolion yn talu am eu gofal eu hunain yn llawn neu'n rhannol, byddant hwy, neu eu cynrychiolwyr yn cael contract ysgrifenedig. Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ telerau ac amodau; ○ ffioedd, gan gynnwys taliadau ychwanegol neu unrhyw ffioedd am dalu'n hwyr; ○ trefniadau ac amserlenni ar gyfer hysbysu unigolion am newidiadau i'r contract; ac ○ trefniadau ar gyfer talu. • Pan fo cynllun personol wedi'i ddiwygio i ystyried unrhyw anghenion gofal a chymorth yr unigolyn sy'n newid, caiff y cytundeb lleoli unigol ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl yr angen pan fo hynny'n briodol.

(7) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth adolygu'r cytundeb lleoli unigolyn—

(a) o leiaf unwaith o fewn blwyddyn gyntaf y lleoliad;

(b) pryd bynnag y gwneir newid sylweddol i'r cynllun personol;

(c) ar gais rhesymol yr unigolyn, unrhyw gynrychiolydd neu'r gofalwr lleoli oedolion;

(d) beth bynnag, o fewn blwyddyn i'r adolygiad diwethaf.

(8) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth derfynu cytundeb lleoli unigolyn mewn unrhyw achos pan fo'r gofalwr lleoli oedolion yn peidio â bod yn addas i fod yn ofalwr lleoli oedolion yn unol â rheoliad 36.

(9) Heb ragfarnu paragraff (8), rhaid i'r darparwr gwasanaeth derfynu cytundeb gofalwr mewn unrhyw achos pan fo'n ymddangos i'r darparwr gwasanaeth nad yw neu na fydd y gofalwr lleoli oedolion yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y cytundeb lleoli unigolyn.

(10) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth derfynu cytundeb lleoli unigolyn heb ymgynghori'n gyntaf â'r unigolyn, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol ymgynghori ag ef.

- Mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau i adolygu'r cytundeb lleoli unigol yn unol â rheoliad 12(7). Bydd unrhyw adolygiadau'n cael eu cynnal gyda'r unigolyn a'r gofalwr lleoli oedolion a, lle y bo hynny'n briodol, gyda chytundeb yr unigolyn, unrhyw gynrychiolydd.
- Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau effeithiol ar waith i fonitro ac adolygu'r rhwymedigaethau a osodir ar ofalwr lleoli oedolion fel y nodir yn y cytundeb lleoli unigol.
- Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cymryd camau i gydymffurfio â'r cytundeb lleoli unigol lle y nodir nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd.
- Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau i sicrhau y caiff cytundeb gofalwr unigolyn ei derfynu yn amserol ac yn effeithiol.
- Lle bo'n briodol, mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod gan ofalwr lleoli oedolion y cyfle i ymateb i unrhyw bryderon sydd gan y darparwr gwasanaeth ynghylch addasrwydd y lleoliad (gan gynnwys unrhyw ofal a chymorth a roddir i unigolyn yn eu gofal), cyn unrhyw benderfyniad i derfynu lleoliad.
- Mae gofalwyr lleoli oedolion ac unigolion yn cael cymorth wrth i leoliad ddod i ben, pan fydd hyn wedi'i gynllunio neu mewn argyfwng.

Rheoliad 13	Canllawiau
<p>Cynllun personol</p> <p>13.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth lunio cynllun i'r unigolyn sy'n nodi—</p> <p>(a) sut y bydd anghenion gofal a chymorth yr unigolyn yn cael eu diwallu o ddydd i ddydd,</p> <p>(b) sut y bydd yr unigolyn yn cael ei gefnogi i gyflawni ei ganlyniadau personol,</p> <p>(c) y camau a fydd yn cael eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau a nodir i lesiant yr unigolyn, a</p> <p>(d) y camau a fydd yn cael eu cymryd i gefnogi cymryd risgiau cadarnhaol ac annibyniaeth, pan benderfynwyd bod hyn yn briodol.</p> <p>(2) Yn y Rheoliadau hyn, cyfeirir at y cynllun y mae'n ofynnol iddo gael ei lunio o dan baragraff (1) fel cynllun personol.</p> <p>(3) Rhaid i'r cynllun personol gael ei lunio cyn cychwyn darparu gofal a chymorth i'r unigolyn, oni bai bod paragraff (4) yn gymwys.</p> <p>(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn achos pan fo ar yr unigolyn angen brys am ofal a chymorth ac na fo amser wedi bod i lunio cynllun personol cyn cychwyn darparu gofal a chymorth i'r unigolyn.</p> <p>(5) Os yw paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r cynllun personol gael ei lunio o fewn 24 awr i gychwyn darparu gofal a chymorth i'r unigolyn.</p> <p>(6) Wrth lunio cynllun personol, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys yr unigolyn ac unrhyw gynrychiolydd. Ond nid yw'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gynnwys cynrychiolydd—</p> <p>(a) os nad yw'r unigolyn yn dymuno i'r cynrychiolydd gael ei</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pan benderfynir y gall darparwr gwasanaeth ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn drwy leoliad oedolyn, caiff cynllun personol cychwynol ei ddatblygu, ei gyd-lunio â'r unigolyn, y gofalwyr lleoli oedolion, yr awdurdod sy'n lleoli (lle bo'n berthnasol) ac unrhyw gynrychiolydd (lle bo'n briodol) cyn i'r unigolyn gael ei leoli gyda'r gofalwr lleoli oedolion. • Mewn achos o argyfwng, bydd y cynllun personol cychwynol ar waith o fewn 24 awr i'r amser y bydd yr unigolyn yn cael ei leoli â'r gofalwr lleoli oedolion. • Caiff y cynllun personol cychwynol ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod y 7 diwrnod cyntaf pan fydd y gwasanaeth yn cychwyn. • Bydd y cynllun personol yn nodi: <ul style="list-style-type: none"> ○ y camau sy'n ofynnol er mwyn diwallu anghenion llesiant, gofal a chymorth yr unigolyn o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys manylion yr anghenion o ran gofal (gan gynnwys hunanfeddyginiaeth), yr hyn fyddai orau gan yr unigolyn a'r trefniadau ar gyfer darparu hyn, ond nid yw'n amserlen o'r gweithgareddau dyddiol; ○ sut bydd yr unigolyn yn cael cymorth i gyflawni ei ganlyniadau personol; ○ sut cefnogir dymuniadau, dyheadau a chredoau crefyddol yr unigolyn; ○ camau i sylwi ar y peryglon i lesiant unigolyn a sut

<p>gynnwys, neu</p> <p>(b) pe byddai cynnwys y cynrychiolydd yn anghyson â llesiant yr unigolyn.</p> <p>(7) Wrth lunio'r cynllun personol, rhaid i'r darparwr gwasanaeth ystyried—</p> <p>(a) cynllun gofal a chymorth yr unigolyn,</p> <p>(b) os nad oes cynllun gofal a chymorth, asesiad y darparwr o dan reoliad 10(4),</p> <p>(c) unrhyw asesiadau iechyd neu unrhyw asesiadau perthnasol eraill,</p> <p>(d) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn,</p> <p>(e) unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn, ac</p> <p>(f) unrhyw risgiau i lesiant unigolion eraill y darperir gofal a chymorth iddynt yn yr un llety.</p>	<p>rheolir hyn;</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ camau i gefnogi mentro cadarnhaol; ac ○ camau i gynnal, ail-alluogi a/neu sicrhau annibyniaeth. <ul style="list-style-type: none"> • Pan fydd cynllun personol yn cael ei adolygu, caiff ei gyd-lunio â'r unigolyn, y gofalywyr lleoli oedolion, yr awdurdod sy'n lleoli (lle bo'n berthnasol) ac unrhyw gynrychiolydd (lle bo'n briodol). • Bydd copi o'r cynllun personol yn cael ei ddarparu i'r sawl sy'n cael y gwasanaeth ac i'r gofalywr lleoli oedolion, mewn iaith a fformat sy'n briodol i anghenion yr unigolyn, ei oedran a lefel ei ddealltwriaeth. • Bydd unigolion, gofalywyr lleoli oedolion, yr awdurdod sy'n lleoli (lle bo'n berthnasol) ac unrhyw gynrychiolywyr (lle bo'n briodol) yn cael gwybod sut gallant gael gfael ar y cynllun personol.
--	--

Rheoliad 14	Canllawiau
<p>Adolygu'r cynllun personol</p> <p>14.—(1) Rhaid i gynllun personol yr unigolyn gael ei adolygu fel sy'n ofynnol, a phan fo'n ofynnol, ond o leiaf bob tri mis.</p> <p>(2) Rhaid i adolygiadau o gynllun personol gynnwys adolygiad o'r graddau y mae'r unigolyn wedi gallu cyflawni ei ganlyniadau personol.</p> <p>(3) Wrth gynnal adolygiad o dan y rheoliad hwn, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys yr unigolyn ac unrhyw</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff y cynllun personol ei adolygu'n barhaus a'i ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau yn anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a'i ganlyniadau personol. • Caiff y cynllun ei adolygu bob tri mis neu cyn hynny, os bydd anghenion yr unigolyn yn newid, ac yn unol ag unrhyw adolygiadau a gynhelir gan yr awdurdod sy'n lleoli (lle bo'n berthnasol). • Caiff adolygiadau eu cynnal gyda'r unigolyn a, lle y bo

<p>gynrychiolydd. Ond nid yw'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gynnwys cynrychiolydd—</p> <p>(a) os nad yw'r unigolyn yn dymuno i'r cynrychiolydd gael ei gynnwys, neu</p> <p>(b) pe byddai cynnwys y cynrychiolydd yn anghyson â llesiant yr unigolyn.</p> <p>(4) Ar ôl cwblhau unrhyw adolygiad sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn, rhaid i'r darparwr gwasanaeth ystyried a ddylai'r cynllun personol gael ei ddiwygio a diwygio'r cynllun fel y bo angen.</p>	<p>hynny'n briodol, gydag unrhyw gynrychiolydd, gyda chytundeb yr unigolyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae adolygiadau'n gymesur i ddiwallu anghenion yr unigolyn a hyd y lleoliad sy'n cael ei gynllunio neu sydd wedi'i gynnal. Cynhelir yr adolygiadau mewn amgylchiadau anffurfiol / ffurfiol gan ddibynnu ar anghenion yr unigolyn. • Yn ystod adolygiadau, ystyrir yr wybodaeth a gofnodir gan ofalwr lleoli oedolion sy'n ymwneud â sut mae'r unigolyn yn cyflawni ei ganlyniadau personol. Os bydd hyn yn sylweddol wahanol i unrhyw asesiad gan gorff comisiynu ac i'r cynllun gofal a chymorth, dylid hysbysu'r comisiynydd perthnasol.
--	---

Rheoliad 15	Canllawiau
<p>Cofnodion o'r cynllun personol</p> <p>15. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) cadw cofnod o'r canlynol—</p> <p>(i) y cynllun personol ac unrhyw gynllun diwygiedig, a</p> <p>(ii) canlyniad unrhyw adolygiad, a</p> <p>(b) rhoi copi o'r cynllun personol ac unrhyw gynllun diwygiedig i—</p> <p>(i) yr unigolyn,</p> <p>(ii) unrhyw gynrychiolydd, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant yr unigolyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd copi o'r cynllun personol ar gael mewn fformat ac iaith sy'n briodol ar gyfer anghenion yr unigolyn. • Caiff unigolion, y gofalwyr lleoli oedolion, yr awdurdod sy'n lleoli (lle bo'n berthnasol) ac unrhyw gynrychiolwyr wybod ynghylch sut gallant gael gafael ar y cynllun personol.

1.4 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran yr wybodaeth sydd i'w darparu i unigolion wrth gychwyn darparu gofal a chymorth (Rhan 5)

Bwriad Rhan 5 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion yn cael gwybodaeth am y gwasanaeth i'w galluogi i gael dealltwriaeth glir o'r gwasanaeth.

Dylai hyn alluogi unigolion, gofawyr lleoli oedolion, yr awdurdodau sy'n lleoli (lle bo'n berthnasol) ac unrhyw gynrychiolwyr i ddeall yn dda sut mae'r gwasanaeth yn gweithio o ran darparu gofal a chymorth. Bydd y canllawiau ysgrifenedig hefyd yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i leisio pryderon a chwyno wrth ddarparwyr gwasanaethau os na fyddant yn fodlon â'r gwasanaeth. Mae'r canllawiau hefyd yn dweud sut mae uwchgyfeirio'r pryderon hyn os na fyddant yn fodlon â'r ymateb.

Rheoliad 16	Canllawiau
<p>Gwybodaeth am y gwasanaeth</p> <p>16.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth lunio canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth.</p> <p>(2) Rhaid i'r canllaw—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) cael ei ddyddio, ei adolygu o leiaf bob blwyddyn a'i ddiweddarau fel y bo angen, (b) bod mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat priodol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth, (c) cael ei roi i bob unigolyn sy'n cael gofal a chymorth, (d) cael ei roi i bob gofalwr lleoli oedolion, (e) cael ei wneud ar gael i eraill ar gais, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant unrhyw unigolyn. <p>(3) Rhaid i'r canllaw gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) gwybodaeth am sut i godi pryder neu wneud cwyn; (b) gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau eirioli. <p>(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae llawlyfr ysgrifenedig ar gael i'r rheini a restrir yn rheoliad 16(2)(c)-(e), sy'n rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth. • Mae'r llawlyfr mewn iaith syml ac mewn fformat sy'n adlewyrchu anghenion, oedran a lefel dealltwriaeth y sawl y bwriedir y gwasanaeth ar ei gyfer. Mae'r llawlyfr ar gael mewn fformatau a thrwy gyfryngau sydd ar gael yn hwylus ac yn briodol i'r gynulleidfa. Er enghraifft, iaith briodol ac iaith o ddewis yr unigolyn, print bras, sain, cymhorthion cyfrifiadurol, gweledol. Lle bo angen, caiff ei esbonio yn y dull cyfathrebu a ffefrir gan yr unigolyn neu'r gofalwr lleoli oedolion. • Os bydd gofyn, rhoddir cymorth i unigolion neu ofalwyr lleoli gofal ddeall cynnwys y llawlyfr a'r hyn mae'n ei olygu iddynt hwy. • Mae'r llawlyfr yn rhestru'r meysydd sy'n ofynnol dan reoliad 16(3) ynghyd â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ trefniadau ar gyfer cyflwyno'r unigolyn i'r gofalwr lleoli

sicrhau bod pob unigolyn yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w alluogi i ddeall yr wybodaeth a gynhwysir yn y canllaw.

- oedolion;
- ethos, diwylliant a blaenoriaethau'r gwasanaeth lleoli oedolion, gan gynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben;
- rôl y gofalwr lleoli oedolion yn y broses arolygu gan reoleiddiwr y gwasanaeth;
- sut i gael gafael ar yr adroddiad arolygu diweddaraf a luniwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth;
- y staff allweddol a fydd yn rhoi cymorth i'r unigolyn a'r gofalwyr lleoli oedolion;
- sut i gysylltu â'r unigolyn cyfrifol;
- y trefniadau ar gyfer diogelu a chwythu'r chwiban;
- y weithdrefn gwyno a sut mae gwneud cwyn;
- manylion cyswllt a rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a rheoleiddiwr y gwasanaeth;
- mynediad, a help i gael mynediad at, wasanaethau eirioli perthnasol ac asiantaethau neu wasanaethau eraill, megis gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol (meddyg teulu; deintydd; optometrydd, fferylllydd, ciropodydd, ymweliadau â'r ysbyty), cludiant;
- mynediad, a help i gael mynediad at, ddyfeisiau cyfathrebu digidol perthnasol a/neu dechnoleg gynorthwyol;
- trefniadau ar gyfer mynegi barn a chymryd rhan yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei gynnal;
- telerau ac amodau, gan gynnwys dan ba amgylchiadau y gellid rhoi'r gorau i ddarparu'r lleoliad a chyfnodau rhybudd;
- gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i ofalwyr lleoli oedolion gan y darparwr gwasanaeth; ac
- sut gall unigolion neu ofalwyr lleoli oedolion gael gafael ar eu cofnodion eu hunain.

1.5 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran safon y gofal a'r sydd i'w darparu (Rhan 6)

Bwriad Rhan 6 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion yn cael y gofal a'r cymorth o ansawdd y mae arnynt ei angen er mwyn cyflawni eu canlyniadau llesiant gorau posibl. Caiff y gwasanaeth ei gynllunio drwy ymgynghori â'r unigolyn gan ystyried ei ddymuniadau personol, ei ddyheadau a'i ganlyniadau ac unrhyw beryglon ac anghenion arbenigol sy'n llywio'i angen am ofal a chymorth.

Mae hyn yn cynnwys:

- trefniadau i'r gofalwr lleoli oedolion ddiwallu anghenion gofal yr unigolyn a'i alluogi i gyflawni ei ganlyniadau personol;
- darparu staff a dewis gofalwyr lleoli oedolion sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r medrusrwydd i ddiwallu anghenion llesiant unigolion; ac
- sicrhau bod gan staff a gofalwyr lleoli oedolion y sgiliau iaith a chyfathrebu priodol.

Rheoliad 17	Canllawiau
<p>Safonau gofal a chymorth - gofynion cyffredinol</p> <p>17.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau y darperir gofal a chymorth mewn ffordd sy'n amddiffyn, yn hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant unigolion.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau y darperir gofal a chymorth i bob unigolyn yn unol â chynllun personol yr unigolyn.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau y darperir gofal a chymorth mewn ffordd—</p> <p>(a) sy'n cynnal perthnasoedd personol a phroffesiynol da ag unigolion a staff a gofalwyr lleoli oedolion; a</p> <p>(b) sy'n annog ac yn cynorthwyo staff i gynnal perthnasoedd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau i sicrhau y caiff gofal a chymorth eu darparu i'r unigolyn yn unol â chynllun personol a chytundeb lleoliad yr unigolyn a datganiad o ddiben y darparwr. • Mae disgwyliadau'r darparwr gwasanaeth at y safonau gofal a chymorth y mae'n rhaid i ofalwr lleoli oedolion eu darparu i unigolyn sy'n cael eu lleoli gydag ef yn cael eu nodi'n glir yn y datganiad o ddiben. • Mae polisïau a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth yn gymorth i gyflawni canlyniadau personol yr unigolyn. • Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod y gwasanaeth

personol a phroffesiynol da ag unigolion a gofalwyr lleoli oedolion.

(4) Os nad yw'r darparwr gwasanaeth, o ganlyniad i newid yn anghenion asesedig yr unigolyn am ofal a chymorth, yn gallu diwallu'r anghenion hynny mwyach, hyd yn oed ar ôl gwneud unrhyw addasiadau rhesymol, rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi hysbysiad ysgrifenedig o hyn i'r unigolyn, unrhyw gynrychiolydd, y gofalwr lleoli oedolion a chomisiynydd y gwasanaeth ar unwaith.

yn ymatebol ac yn rhagweithiol o ran sylwi ar risgiau a'u lliniaru, a chefnogi annibyniaeth a mentro cadarnhaol lle pennwyd bod hyn yn briodol.

- Caiff gofalwyr lleoli oedolion eu helpu i geisio cyngor meddygol a chymorth proffesiynol arall ar gyfer unigolyn (lle bo'n briodol). Bydd y darparwr gwasanaeth yn cyfeirio pobl yn ôl yr angen at yr awdurdod lleoli yn amserol.
- Cefnogir gofalwyr lleoli oedolion, drwy oruchwyliaeth a hyfforddiant, i sicrhau eu bod yn gallu darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn ac i'w galluogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - adnabod arwyddion camdriniaeth;
 - cymorth ymddygiadol cadarnhaol;
 - cymorth cyntaf sylfaenol; ac
 - hybu iechyd.
- Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod y cymorth y maent yn ei ddarparu'n galluogi i'r gofalwyr lleoli oedolion ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da i'r unigolion sydd wedi'u lleoli â nhw mewn perthynas â'u:
 - llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol;
 - anghenion diwylliannol, crefyddol, cymdeithasol neu ysbrydol;
 - anghenion o ran addysg, hyfforddiant a hamdden;
 - perthnasoedd personol a theuluol;
 - rheolaeth dros eu bywyd bob dydd a, lle y bo hynny'n

	<p>berthnasol, cyfranogi mewn gwaith;</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ datblygiad deallusol, emosiynol ac ymddygiadol; ○ hawliau a hawliadau; ac ○ amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. <ul style="list-style-type: none"> • Mae gofalwyr lleoli oedolion yn cael cefnogaeth i alluogi'r unigolyn i fod mor annibynnol â phosibl, gan gynnwys cymorth i ofalu amdanynt eu hunain fel rhoi meddyginiaeth iddynt hwy eu hunain. • Mae gofalwyr lleoli oedolion yn cael hyfforddiant priodol i ddeall ymddygiadau a mabwysiadu strategaethau i roi cymorth i unigolion gyda'u hymddygiad i sicrhau canlyniadau a llesiant cadarnhaol. • Mae gofalwyr lleoli oedolion yn cael eu cefnogi i gynorthwyo'r unigolyn i fod yn iach ac yn egnïol. • Lle bo'n briodol, mae darparwyr gwasanaethau'n cefnogi gofalwyr lleoli oedolion i sicrhau bod unigolion yn cael archwiliadau iechyd perthnasol a byddant yn rhoi cymorth i gael adolygiadau parhaus. • Mae darparwyr gwasanaethau'n cefnogi gofalwyr lleoli oedolion i sicrhau bod unrhyw gymhorthion yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol fel eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol.
--	--

Rheoliad 18	Canllawiau
<p>Gwybodaeth</p> <p>18.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod gan unigolion yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt i wneud neu gymryd rhan mewn asesiadau, cynlluniau a phenderfyniadau o ddydd i ddydd am y ffordd y darperir gofal a chymorth iddynt a sut y maent yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol.</p> <p>(2) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir fod ar gael yn yr iaith, yr arddull, y cyflwyniad a'r fformat priodol, gan roi sylw i—</p> <p>(a) natur y gwasanaeth fel y'i disgrifir yn y datganiad o ddiben;</p> <p>(b) lefel dealltwriaeth yr unigolyn a'i allu i gyfathrebu.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod yr unigolyn yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w alluogi i ddeall yr wybodaeth a ddarperir.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau'n cefnogi gofalwyr lleoli oedolion i sicrhau bod unigolion yn gallu cymryd rhan mewn cynllunio ac adolygu gofal yn ystod eu lleoliad a gwneud penderfyniadau am y ffordd y darperir gofal a chymorth iddynt. • Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cael yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen i ddarparu gofal a chymorth i'r unigolyn o ddydd i ddydd yn unol â'r cynllun personol. • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau i alluogi unigolion i ddeall yr wybodaeth a ddarperir.

Rheoliad 19	Canllawiau
<p>Iaith a chyfathrebu</p> <p>19.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod anghenion iaith unigolion yn cael eu diwallu.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau y darperir mynediad i unrhyw gymhorthion a chyfarpar sy'n angenrheidiol i unigolion a'u gofalwyr lleoli oedolion i hwyluso'r ffordd y mae'r unigolyn yn cyfathrebu ag eraill.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau i gefnogi'r gofalwyr lleoli oedolion o ran anghenion iaith a chyfathrebu penodol yr unigolyn yn unol â'r datganiad o ddiben. Lle bo angen, bydd hyn yn cynnwys sefydlu trefniadau i wneud yn siŵr bod yr unigolyn yn gallu cyfathrebu'n ystyrlon. Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ unrhyw hyfforddiant neu gymorth, lle bo'n briodol, i gyfathrebu â'r unigolyn yn yr iaith briodol o safbwynt

	<p>ei angen a/neu ei ddewis; a</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ mynediad, lle bo'n briodol, at ddulliau cyfathrebu ychwanegol fel y System Gyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS), Triniaeth ac Addysg i Blant ac Awtistiaeth ac Anawsterau Cyfathrebu Cysylltiedig (TEACCH), Makaton, ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL). <ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau'n nodi anghenion cyfathrebu unigolyn wrth benderfynu a all y gwasanaeth ddiwallu ei anghenion. • Gall unigolion a gofalwyr lleoli oedolion ddeall staff pan fyddant yn cyfathrebu â hwy. • Mae darparwyr gwasanaethau'n cyflenwi neu'n gweithio tuag at gynnig gwasanaeth yn Gymraeg i unigolion neu ofalwyr lleoli oedolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.
--	---

Rheoliad 20	Canllawiau
<p>Parch a sensitifrwydd</p> <p>20.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod unigolion yn cael eu trin â pharch a sensitifrwydd.</p> <p>(2) Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) parchu preifatrwydd ac urddas yr unigolyn; (b) parchu hawliau'r unigolyn i gyfrinachedd; (c) hybu ymreolaeth ac annibyniaeth yr unigolyn; (d) rhoi sylw i unrhyw nodweddion gwarchoddedig perthnasol 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o'u hawliau a'r hyn y mae ganddynt yr hawl iddo o dan y gyfraith, ac o dan bolisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth y darparwr gwasanaeth. • Mae darparwyr gwasanaethau yn cefnogi gofalwyr lleoli oedolion i sicrhau: <ul style="list-style-type: none"> ○ bod pobl yn gwrando ar unigolion ac yn cyfathrebu â hwy mewn ffordd gwrtais a pharchus ac mai'r gofal a'r

(fel y'u diffinnir yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010)
yr unigolyn.

cymorth a roddir iddynt yw prif ffocws sylw'r gofalwr
lleoli oedolion; ac

- bod unigolion yn cael eu trin â pharch ac yn teimlo
bod gwerth yn cael ei roi arnynt.
- Os dymunant, mae unigolion a gofalwyr lleoli oedolion yn
cael eu hannog i gyfrannu eu barn ar y ffordd y mae'r
gwasanaeth yn cael ei redeg.

1.6 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau – diogelu (Rhan 7)

Bwriad Rhan 7 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod gan ddarparwyr gwasanaethau y systemau ar waith i ddiogelu unigolion agored i niwed y maent yn darparu gofal a chymorth ar eu cyfer.

Bydd hyn yn cynnwys trefniadau sydd:

- yn rhoi cymorth i unigolion agored i niwed sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
- yn cefnogi ac yn sylfaen i wybodaeth y staff a gofalwyr lleoli oedolion, eu dealltwriaeth a'u sgiliau o ran sylwi ar y peryglon a'r camau i'w cymryd pan amheuir bod cam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol; ac
- yn sicrhau bod darparwyr yn yn cydweithio â phartneriaid i atal a chymryd camau pan gaiff cam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol ei amau neu ei ganfod.

Rheoliad 21	Canllawiau
<p>Diogelu – gofyniad cyffredinol</p> <p>21. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol.</p>	<ul style="list-style-type: none">• Pan fyddant yn dechrau ar eu lleoliad, rhoddir gwybodaeth i unigolion a'u cynrychiolwyr am ddiogelu a sut mae lleisio pryder, gan ddweud wrthynt pa gymorth sydd ar gael i'w galluogi i wneud hynny.• Gall staff a gofalwyr lleoli oedolion gael gafael ar bolisiau a gweithdrefnau diogelu sydd wedi'u diweddarau.• Mae staff a gofalwyr lleoli oedolion yn cael hyfforddiant perthnasol i'w rôl i'w galluogi i ddeall eu cyfrifoldeb i ddiogelu ac amddiffyn unigolion agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys trefniadau diogelu mewnol a leol, gan gynnwys sut i fynegi pryder (chwythu'r chwiban.).

	<ul style="list-style-type: none">• Mae staff yn cael eu hyfforddi'n gyson yn unol â'r argymhellion diogelu lleol.• Mae staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol am leisio pryder er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant unigolion.• Mae darparwyr gwasanaethau'n rhoi cymorth i staff sydd am leisio pryder ynghylch diogelu (chwythu'r chwiban).• Mae darparwyr gwasanaethau'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill i asesu a rheoli risgiau i unigolion ac i gymryd rhan yn y broses ddiogelu.• Mae cofnodion ynghylch atgyfeiriadau a chanlyniadau diogelu'n cael eu cadw er mwyn gallu goruchwylio diogelu o fewn y gwasanaeth a chraffu arno. Rhaid i'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol oruchwylio unigolion agored i niwed a rhaid i hynny ddigwydd o fewn y strwythur llywodraethu gan sefydlu trefniadau goruchwylio ar lefel y bwrdd.• Mae'r darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod canlyniadau sy'n codi wrth atgyfeirio unrhyw achos yn ymwneud â diogelwch yn cael eu cyfleu i'r unigolyn mewn dull sy'n briodol i'w oed a lefel ei ddealltwriaeth, gan ystyried ei gyflwr penodol a/neu unrhyw anghenion o ran cyfathrebu. Caiff hyn ei gyfleu hefyd i unrhyw gynrychiolydd (lle bo hynny'n briodol).
--	---

Rheoliad 22	Canllawiau
<p>Polisiâu a gweithdrefnau diogelu</p> <p>22.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisiâu a gweithdrefnau yn eu lle—</p> <p>(a) ar gyfer atal camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol, a</p> <p>(b) ar gyfer ymateb i unrhyw honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol.</p> <p>(2) Yn y rheoliad hwn, cyfeirir at bolisiâu a gweithdrefnau o'r fath fel polisiâu a gweithdrefnau diogelu.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod ei bolisiâu a'i weithdrefnau diogelu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.</p> <p>(4) Yn benodol, pan fo honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) gweithredu yn unol â'i bolisiâu a'i weithdrefnau diogelu,</p> <p>(b) cymryd camau gweithredu ar unwaith i sicrhau diogelwch pob unigolyn y darperir gofal a chymorth ar ei gyfer,</p> <p>(c) gwneud atgyfeiriadau priodol i asiantaethau eraill, a</p> <p>(d) cadw cofnod o unrhyw dystiolaeth neu sylwedd unrhyw honiad, unrhyw gamau gweithredu a gymerir ac unrhyw atgyfeiriadau a wneir.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisi a gweithdrefnau diogelu wedi'u diweddarau ar waith. • Mae'r polisiâu a'r gweithdrefnau diogelu yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth gyfredol, y canllawiau cenedlaethol a'r gweithdrefnau diogelu lleol ar gyfer oedolion. • Mae'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu'n cynnwys rolau unigol a chyfrifoldebau staff a phobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth o ran canfod, derbyn ac adrodd am honiadau o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol neu amheuaeth ohonynt. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau i'r staff am y camau i'w cymryd a'r systemau ar gyfer cyfeirio pobl at yr awdurdod lleoli ac at bartneriaid ac asiantaethau perthnasol eraill. • Mae'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu'n cynnwys rôl a chyfrifoldebau gofalwyr lleoli oedolion mewn perthynas â honiadau neu ddatgeliadau o gamdriniaeth neu driniaeth amhriodol neu amheuaeth ohonynt gan unrhyw unigolyn yn aelwyd y gofalwr lleoli oedolion. Bydd hyn yn cynnwys sut i roi gwybod am honiadau o'r fath neu eu datgelu i'r darparwr gwasanaeth, yr awdurdod lleoli (lle bo'n briodol) neu i bartneriaid ac asiantaethau perthnasol eraill. • Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod unigolion yn gwybod am eu hawl i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol.

Rheoliad 23	Canllawiau
<p>Cefnogi unigolion i reoli eu harian</p> <p>23.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle ynghylch cefnogi unigolion i reoli eu harian a rhaid iddo roi trefniadau yn eu lle i sicrhau y darperir y gwasanaeth yn unol â'r polisi hwnnw a'r gweithdrefnau hynny.</p> <p>(2) Rhaid i'r polisi a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol gan y rheoliad hwn iddynt fod yn eu lle nodi'r camau sydd i'w cymryd i gefnogi unigolion i reoli eu harian eu hunain ac i amddiffyn unigolion rhag camdriniaeth ariannol.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau i'r graddau y bo'n ymarferol nad yw personau sy'n gweithio yn y gwasanaeth a gofalwyr lleoli oedolion yn gweithredu fel asiant unigolyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisi a gweithdrefnau'n gosod trefniadau i ofalwyr lleoli oedolion roi cymorth i unigolion reoli eu harian. Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ sut mae unigolion yn cael anogaeth a chefnogaeth i ymdrin â'u materion ariannol eu hunain yn ôl eu dymuniad/lle bydd modd; ○ sut rhoddir cymorth i unigolion, gan gynnwys agor a rheoli cyfrifon banc unigol, cyllidebu a gwneud penderfyniadau am wario, lle bo'n briodol; ac ○ sut rhoddir cymorth i unigolion ddeall a rheoli unrhyw beryglon cysylltiedig. • Mae gofalwyr lleoli oedolion yn cael eu cefnogi drwy drefniadau i alluogi unigolion i gael mynediad at gymorth a chyngor annibynnol (gan gynnwys eiriolaeth) sy'n ymwneud â'u materion ariannol. • Ni fydd staff neu bobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth neu ofalwyr lleoli oedolion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn gweithredu fel asiant (i weithredu ar ran yr unigolyn) ar gyfer yr unigolyn oni bai fod ganddynt yr awdurdod cyfreithiol i wneud hynny.

Rheoliad 24	Canllawiau
<p>Defnyddio rheolaeth ac ataliaeth yn briodol</p> <p>24.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle ar ddefnyddio rheolaeth neu ataliaeth.</p> <p>(2) Rhaid i'r polisi a'r gweithdrefnau wahardd gofal a chymorth rhag cael eu darparu gan y gofalwr lleoli oedolion mewn ffordd sy'n cynnwys gweithredoedd y bwriedir iddynt reoli neu atal unigolyn oni bai bod y gweithredoedd hynny—</p> <p>(a) yn angenrheidiol i atal risg o niwed a berir i'r unigolyn neu i unigolyn arall, neu ddifrod difrifol tebygol l eiddo, a</p> <p>(b) yn ymateb cymesur i risg o'r fath.</p> <p>(3) Rhaid i'r polisi a'r gweithdrefnau ei gwneud yn ofynnol i ofalwr lleoli oedolion gael ei hyfforddi yn y dull rheoli neu atal a ddefnyddir.</p> <p>(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unrhyw reolaeth neu ataliaeth a ddefnyddir gan y gofalwyr lleoli oedolion yn cael ei chyflawni yn unol â'r polisïau hyn a'r gweithdrefnau hyn.</p> <p>(5) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth wneud cofnod o unrhyw ddigwyddiad y defnyddir rheolaeth neu ataliaeth ynddo yn union ar ôl iddo gael ei hysbysu amdano gan y gofalwr lleoli oedolion.</p> <p>(6) Rhaid i'r polisi a'r gweithdrefnau ei gwneud yn ofynnol i ofalwr lleoli oedolion hysbysu'r darparwr gwasanaeth am unrhyw ddigwyddiad y defnyddir rheolaeth neu ataliaeth ynddo o fewn 24 awr i'r digwyddiad.</p> <p>(7) At ddibenion y rheoliad hwn, mae person yn rheoli neu'n atal unigolyn os yw'r person hwnnw—</p> <p>(a) yn defnyddio, neu'n bygwth defnyddio, grym i sicrhau bod gweithred yn cael ei gwneud y mae'r unigolyn yn ei gwrthsefyll, neu</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau bolisi a gweithdrefnau waith ynghylch defnyddio rheolaeth ac ataliaeth yn briodol. Mae hyn yn nodi: <ul style="list-style-type: none"> ○ y gofynion ar ofalwyr lleoli oedolion i sicrhau bod unrhyw ddefnydd o ddulliau rheoli neu atal yn cydymffurfio â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth genedlaethol gyfredol; ac ○ y gofyniad i'r hyfforddiant mewn unrhyw dull rheoli neu atal gael ei gynnal cyn defnyddio unrhyw dull rheoli neu atal o'r fath. • Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod dull gweithredu cadarnhaol ac adeiladol yn cael ei fabwysiadu gan y gofalwyr lleoli oedolion i roi cymorth gydag ymddygiad unigolyn. Mae unrhyw ymagwedd i roi cymorth gydag ymddygiad yr unigolyn yn gyson â: <ul style="list-style-type: none"> ○ diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn; ac ○ llesiant aelodau eraill o'r teulu y darperir gofal a chymorth iddynt. • Mae staff a gofalwyr lleoli oedolion yn ymwybodol o'r polisi ynghylch defnyddio rheolaeth ac ataliaeth yn briodol, ac yn cadw at y polisi hwn. • Mae gofalwyr lleoli oedolion yn cael hyfforddiant ar gymorth ymddygiad sy'n berthnasol i'w rôl er mwyn sicrhau mai dim ond mewn ffordd ragweithiol, a phan fo hynny'n hollol angenrheidiol, y defnyddir unrhyw ddulliau rheoli neu atal, a hynny yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cyfredol.

(b) yn cyfyngu ar ryddid symud yr unigolyn, pa un a yw'r unigolyn yn gwrthsefyll ai peidio, gan gynnwys drwy ddefnyddio dulliau corfforol, mecanyddol neu gemegol.

- Mae staff a gofalwyr lleoli oedolion yn cael gwybodaeth gyfredol am y polisi a'r gweithdrefnau, yn unol ag unrhyw newidiadau i ganllawiau a deddfwriaeth;
- Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod trefniadau ar waith fel bod darparwyr yn gallu gwneud yn siŵr, bob tro y bydd gofalwyr lleoli oedolion yn defnyddio dulliau rheoli neu atal:
 - nad yw hyn ond yn cael ei ddefnyddio fel rhan o ddull rhagweithiol i roi cymorth ar gyfer ymddygiad;
 - ei fod yn gymesur â'r risg o niwed a difrifoldeb y niwed hwnnw i'r unigolyn sydd wedi'i leoli gan y gwasanaeth neu rywun arall;
 - ei fod yn ystyried yr asesiad o anghenion yr unigolyn a'i allu i gydlynio i driniaeth o'r fath; ac
 - ei fod yn dilyn y deddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol.
- Mae darparwyr gwasanaethau yn monitro ac yn adolygu'n rheolaidd yr ymagwedd at ddulliau atal a chyfyngu a'r ffordd y caiff y dulliau hyn eu defnyddio gan ofalwyr lleoli oedolion, gan adrodd am hyn yn eu fframwaith llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys:
 - manylion y digwyddiad a'r camau a gymerwyd mewn ymateb iddo; ac
 - digon o fanylion i alluogi i ddadansoddiad ac adolygiad gael eu cynnal o anghenion gofal a chymorth yr unigolyn, yn ogystal ag i lywio adolygiad ehangach o'r ddarpariaeth gwasanaeth.
- Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau i sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cofnodi ac yn rhoi gwybod iddynt

	<p>am unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â rheoli ac atal o fewn 24 awr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae cofnodion ar ddefnyddio dulliau rheoli ac atal yn cael eu hadolygu ac adroddir yn eu cylch yn yr adolygiad o ansawdd gofal.
--	--

Rheoliad 25	Canllawiau
<p>Amddifadu o ryddid</p> <p>25. Ni chaniateir amddifadu unigolyn o'i ryddid at ddiben cael gofal a chymorth heb awdurdod cyfreithlon.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau bob amser yn gweithredu yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn ogystal â Chod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chod Ymarfer atodol Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid. • Mae staff, a lle bo'n briodol, gofalwyr lleoli oedolion yn cael eu hyfforddi ar adegau priodol ac yn unol ag unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau er mwyn iddynt ddeall eu cyfrifoldeb yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid.

Rheoliad 26
<p>Dehongli Rhan 7</p> <p>26. Yn y Rhan hon— ystyr “camdriniaeth” (“<i>abuse</i>”) yw camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.</p> <p>mae “camdriniaeth ariannol” (“<i>financial abuse</i>”) yn cynnwys— (a) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei ddwyn;</p>

- (b) bod person yn cael ei dwyllo;
- (c) bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall;
- (d) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio;

mae i “esgeulustod” (“*neglect*”) yr un ystyr ag yn adran 197(1) o Ddeddf 2014;

ystyr “niwed” (“*harm*”) yw camdriniaeth neu amhariad ar—

- (a) iechyd corfforol neu iechyd meddwl, neu
- (b) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol cymdeithasol neu ymddygiadol;

mae “triniaeth amhriodol” (“*improper treatment*”) yn cynnwys gwahaniaethu neu atal anghyfreithlon, gan gynnwys amddifadu amhriodol o ryddid o dan delerau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (4).

1.7 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran staffio (Rhan 8)

Bwriad Rhan 8 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion a gofalwyr lleoli oedolion yn cael cymorth gan nifer priodol o staff sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r gwasanaeth sy'n ofynnol mewn ffordd sy'n cyflawni canlyniadau personol yr unigolyn.

Mae gan ddarparwyr gwasanaethau y canlynol ar waith:

- polisïau a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio;
- arferion trwyadl ar gyfer recriwtio ac archwilio cefndir staff;
- strwythur rheoli a staffio sy'n ategu'r datganiad o ddiben; ac
- strwythur rheoli, systemau a phrosesau ar gyfer sefydlu staff, eu goruchwylio'n barhaus, eu hyfforddi a'u datblygu.

Rheoliad 27	Canllawiau
<p>Staffio - gofynion cyffredinol</p> <p>27.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau ar bob adeg fod nifer digonol o staff sydd â'r cymwysterau, yr hyfforddiant, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad addas yn cael eu defnyddio i weithio yn y gwasanaeth, gan roi sylw—</p> <p>(a) i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth;</p> <p>(b) i'r gofyniad i gefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol;</p> <p>(c) i ofynion y rheoliadau yn Rhannau 2 i 11;</p> <p>(d) i'r gofyniad i gefnogi a goruchwylio gofalwyr lleoli oedolion wrth iddynt ddarparu gofal a chymorth.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer cefnogi a datblygu staff.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau dull mesuradwy, systematig amlwg ar waith i bennu nifer y staff a'r ystod o sgiliau/cymwysterau sy'n ofynnol er mwyn darparu cymorth mewn ffordd ddibynadwy i ddiwallu anghenion unigolion a gofalwyr lleoli oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn yn ystyried, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ y datganiad o ddiben; ○ anghenion gofal a chymorth yr unigolyn; ac ○ cefnogi a goruchwylio gofalwyr lleoli oedolion i ddarparu gofal a chymorth i unigolyn. • Caiff y lefelau staffio a'r gymysgedd sgiliau eu hadolygu'n barhaus a'u haddasu i ymateb i newidiadau yn anghenion y gwasanaeth.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae trefniadau ar waith i ymateb i salwch neu absenoldeb staff er mwyn sicrhau bod unigolion a gofalwyr lleoli oedolion yn cael eu cefnogi'n briodol. • Pe bai argyfwng, mae gweithdrefnau i'w dilyn sy'n sicrhau bod staff digonol ac addas ar gael i ymdrin â'r argyfwng yn ogystal â gwaith arferol y gwasanaeth.
--	---

Rheoliad 28	Canllawiau
<p>Addasrwydd staff</p> <p>28.—(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) cyflogi person o dan gontract cyflogaeth i weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny;</p> <p>(b) caniatáu i wirfoddolwr weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny;</p> <p>(c) caniatáu i unrhyw berson arall weithio yn y gwasanaeth mewn swydd y gall, yng nghwrs ei ddyletswyddau, gael cysylltiad rheolaidd ynddi ag unigolion sy'n cael gofal a chymorth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.</p> <p>(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i weithio yn y gwasanaeth oni bai—</p> <p>(a) bod y person yn addas o ran ei uniondeb ac o gymeriad da;</p> <p>(b) bod gan y person y cymwysterau, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer y</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau systemau trwyadl ar waith ar gyfer dethol ac archwilio cefndir pob aelod o'r staff a gwirfoddolwyr er mwyn iddynt allu penderfynu a ddylid eu penodi ai peidio. Mae hyn yn cynnwys yr wybodaeth sydd yn Atodlen 1 o'r Rheoliadau. Mae hyn hefyd yn cynnwys sicrhau cywirdeb y geirdaon a'r gyflogaeth. • Os defnyddir staff asiantaeth, bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod yr un archwiliadau'n cael eu cynnal ar eu cyfer ag a gynhelir ar gyfer staff a gyflogir yn barhaol, a bydd ganddynt dystiolaeth i ddangos bod yr archwiliadau hyn wedi'u cynnal. Gallai hyn gynnwys cadarnhad a rhestrau gwirio a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, os ydynt yn ddigon dibynadwy a chadarn. • Wrth recriwtio staff newydd, rhoddir ystyriaeth gadarnhaol i gynnwys yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, unrhyw gynrychiolydd, a'r gofalwyr lleoli oedolion. • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau broses ar waith i sicrhau bod staff wedi cofrestru'n briodol â rheoleidiwr proffesiynol

<p>gwaith y mae i'w wneud;</p> <p>(c) bod y person, oherwydd ei iechyd, ar ôl i addasiadau rhesymol gael eu gwneud, yn gallu cyflawni'n briodol y tasgau sy'n rhan annatod o'r gwaith y mae wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen ar ei gyfer;</p> <p>(d) bod y person wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol, yn ôl y digwydd, mewn cysylltiad â phob un o'r materion a bennir yn Atodlen 1 a bod yr wybodaeth hon neu'r ddogfennaeth hon ar gael gan y darparwr gwasanaeth i'r rheoleiddiwr gwasanaethau edrych arni;</p> <p>(e) pan fo'r person wedi ei gyflogi gan y darparwr gwasanaeth i reoli'r gwasanaeth, o 1 Ebrill 2022, fod y person wedi ei gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol â GCC(5).</p> <p>(3) Rhaid i gais gael ei wneud am dystysgrif GDG briodol gan neu ar ran y darparwr gwasanaeth at ddiben asesu addasrwydd person ar gyfer swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1). Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os yw'r person sy'n gweithio yn y gwasanaeth wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn fel gwasanaeth diweddarau'r GDG).</p> <p>(4) Pan fo person sy'n cael ei ystyried ar gyfer swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddarau'r GDG, rhaid i'r darparwr gwasanaeth wirio statws tystysgrif GDG y person at ddiben asesu addasrwydd y person hwnnw ar gyfer y swydd honno.</p> <p>(5) Pan fo person a benodir i swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddarau'r GDG, rhaid i'r darparwr gwasanaeth wirio statws tystysgrif GDG y person o</p>	<p>a bod y cofrestriad hwnnw'n un cyfredol neu, lle bo hynny'n berthnasol, eu bod ar gofrestr wirfoddol achrededig.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Wedi ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, bydd y darparwyr gwasanaethau benderfynu a oes gan yr unigolyn y sgiliau, y cymwysterau a'r cymeriad da angenrheidiol i gyflawni'r rôl y mae'n cael ei gyflogi/ei roi ar waith i'w chyflawni. • Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff yn cydymffurfio â gofynion eu codau ymarfer proffesiynol a, lle bo hynny'n briodol, mae darparwyr yn atgyfeirio achosion at y cyrff proffesiynol perthnasol yn achos staff lle mae amheuaeth ynghylch pa mor addas ydynt. • Os oes unrhyw bryderon bod aelod o staff wedi cam-drin unigolyn neu wedi rhoi unigolyn mewn perygl o gael ei gam-drin, bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac unrhyw gorff cofrestru proffesiynol perthnasol yn cael gwybod gan y darparwr gwasanaeth yn ddi-oed. • Os na fydd staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr) bellach yn cyflawni'r meini prawf addasrwydd a nodir yn rheoliad 28(2), bydd y darparwyr gwasanaethau'n cymryd camau priodol yn ddi-oed i sicrhau nad yw unigolion yn cael eu rhoi mewn sefyllfa o risg. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ hyfforddi a mentora; ○ darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol; ac ○ defnyddio gweithdrefnau disgyblu.
--	--

5 Gweler adran 67(3) o'r Ddeddf am y diffiniad o Ofal Cymdeithasol Cymru fel "GCC".

<p>leiaf bob blwyddyn.</p> <p>(6) Pan na fo person a benodir i swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddarau'r GDG, rhaid i'r darparwr gwasanaeth wneud cais am dystysgrif GDG newydd mewn cysylltiad â'r person hwnnw o fewn tair blynedd i ddyroddi'r dystysgrif y gwneir cais amdani yn unol â pharagraff (3) ac wedi hynny rhaid i geisiadau pellach o'r fath gael eu gwneud o leiaf bob tair blynedd.</p> <p>(7) Os nad yw person sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn addas i weithio yn y gwasanaeth mwyach o ganlyniad i beidio â bodloni un neu ragor o'r gofynion ym mharagraff (2), rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) cymryd camau gweithredu angenrheidiol a chymesur i sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion perthnasol;</p> <p>(b) pan fo'n briodol, hysbysu—</p> <p>(i) y corff rheoleiddiol neu broffesiynol perthnasol;</p> <p>(ii) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod staff yn cydymffurfio â'r codau ymarfer proffesiynol a, lle y bo hynny'n briodol, bydd darparwyr yn atgyfeirio achosion at y cyrff proffesiynol perthnasol yn achos staff lle mae amheuaeth ynghylch pa mor addas ydynt. • Os oes unrhyw bryderon bod aelod o staff wedi cam-drin unigolyn neu wedi rhoi unigolyn mewn perygl o gael ei gam-drin, mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac unrhyw gorff cofrestru proffesiynol perthnasol yn cael gwybod gan y darparwr gwasanaeth yn ddi-oed.
--	---

Rheoliad 29	Canllawiau
<p>Cefnogi a datblygu staff</p> <p>29.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi yn ei le ar gyfer cefnogi a datblygu staff.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unrhyw berson sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys person y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr)—</p> <p>(a) yn cael cyfnod sefydlu sy'n briodol i'w rôl;</p> <p>(b) yn cael ei wneud yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau ei hun a chyfrifoldebau staff eraill;</p> <p>(c) yn cael ei oruchwylio a'i arfarnu'n briodol;</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod ganddynt raglen sefydlu sy'n rhoi'r adnoddau i bob aelod newydd o staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr) fod yn hyderus yn eu rolau a'u hymarfer ac yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. • Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn cwblhau'r rhaglen sefydlu berthnasol sy'n ofynnol gan GCC o fewn yr amserlen sydd wedi'i diffinio yn ogystal ag unrhyw raglenni sefydlu sy'n benodol i'r gwasanaeth.

<p>(d) yn cael hyfforddiant craidd sy'n briodol i'r gwaith sydd i'w wneud ganddo;</p> <p>(e) yn cael hyfforddiant arbenigol fel y bo'n briodol;</p> <p>(f) yn cael cymorth a chynorthwy i gael unrhyw hyfforddiant pellach sy'n briodol i'r gwaith y mae'n ei wneud.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unrhyw berson a gyflogir i weithio yn y gwasanaeth yn cael ei gefnogi i gynnal ei gofrestrriad â'r corff rheoleiddiol neu alwedigaethol priodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae staff yn gallu cael gafael ar gopïau o unrhyw godau ymarfer proffesiynol perthnasol a chanllawiau ymarfer, gan gynnwys unrhyw rai a gyhoeddir gan GCC. Bydd y safonau sydd yn y codau a'r canllawiau ymarfer hyn yn cael eu hyrwyddo'n frwd. • Pan ddefnyddir staff asiantaeth, rhoddir cyflwyniad i'r gwasanaeth iddynt sy'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ y datganiad o ddiben; ○ polisiau a gweithdrefnau craidd; ac ○ trefniadau rheoli a goruchwylio. • Mae staff yn cael eu goruchwylio yn eu rôl i'w helpu i adlewyrchu ar eu hymarfer ac i wneud yn siŵr bod eu cymhwysedd proffesiynol yn cael ei gynnal. Mae hyn yn cynnwys adborth ar eu perfformiad gan unigolion a gofalmwyr lleoli oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. • Mae'r staff yn cwrdd i gael goruchwyliaeth un i un gyda'u rheolwr llinell neu swyddog cyfatebol, neu aelod uwch o'r staff, bob chwarter blwyddyn o leiaf. • Mae pob aelod o staff yn cael eu harfarnu bob blwyddyn a bydd hynny'n gyfle i roi adborth am eu perfformiad a nodi meysydd lle bydd angen hyfforddiant a datblygu er mwyn eu cynorthwyo yn eu rôl. • Mae anghenion aelodau unigol o'r staff o ran hyfforddiant, dysgu a datblygiad ychwanegol yn cael eu nodi o fewn eu mis cyntaf yn y swydd ac yn cael eu hadolygu drwy'r broses oruchwylio ac arfarnu.
--	--

	<ul style="list-style-type: none">• Mae staff yn cael cymorth i ddilyn hyfforddiant, i ddysgu ac i ddatblygu i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl ac i ddiwallu anghenion yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r gofalwyr lleoli oedolion.• Mae darparwyr gwasanaethau'n dadansoddi'r anghenion hyfforddi bob blwyddyn (neu'n amlach os bydd angen) er mwyn sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r cymhwysedd perthnasol i ddiwallu anghenion unigolion yn unol â'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.• Mae'r darparwyr gwasanaethau yn cynnal cofnod ysgrifenedig o'r holl hyfforddiant a goruchwyliaeth y mae'r staff wedi ymgymryd ag ef neu y byddant yn ymgymryd ag ef.• Mae darparwyr gwasanaethau'n cynorthwyo'r holl staff i gwblhau, lle y bo hynny'n briodol:<ul style="list-style-type: none">• hyfforddiant craidd;• y cymwysterau angenrheidiol a fyddai'n eu galluogi i barhau i gyflawni eu rôl;• hyfforddiant a gweithgarwch gofynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus;• hyfforddiant arall y tybir ei fod yn briodol gan y darparwr gwasanaeth; ac• hyfforddiant craidd ac arbenigol y bydd GCC yn eu nodi ar gyfer eu rôl.
--	--

Rheoliad 30	Canllawiau
<p>Cydymffurfio â chod ymarfer y cyflogwr</p> <p>30. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth lynu wrth y cod ymarfer ar y safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir oddi wrth bersonau sy'n cyflogi neu sy'n ceisio cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol(6), sydd wedi ei gyhoeddi gan GCC o dan adran 112(1)(b) o'r Ddeddf.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau ddealltwriaeth glir o'u rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Staff Gofal Cymdeithasol (cyhoeddiad GCC) a/neu unrhyw godau ymarfer eraill sy'n berthnasol i gyflogwyr, y gallai GCC eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd.
Rheoliad 31	Canllawiau
<p>Gwybodaeth ar gyfer staff</p> <p>31.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir gwybodaeth i bob person sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys unrhyw berson y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr) am y gwasanaeth a'r ffordd y caiff ei ddarparu.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau addas yn eu lle i wneud staff yn ymwybodol o unrhyw godau ymarfer ynghylch y safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth weithwyr gofal cymdeithasol, sydd i'w cyhoeddi gan GCC o dan adran 112(1)(a) o'r Ddeddf.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau'n casglu gwybodaeth ac yn ei darparu ar gyfer y staff yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y materion a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> ○ ethos a diwylliant y gwasanaeth; ○ yr ymddygiad a ddisgwylir gan staff a phobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth; ○ rolau a chyfrifoldebau staff neu bobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth; ○ polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth; ○ y gofynion o ran cadw cofnodion; ○ cyfrinachedd a gofynion diogelu data; ○ gweithdrefnau disgyblu; ○ trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am bryderon; ac ○ trefniadau ar gyfer pobl yn gweithio ar eu pen eu hunain.

⁶ Fel y'i diffinnir yn adran 79 o'r Ddeddf.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar y copïau diweddaraf o'r holl bolisiâu, gweithdrefnau a chodau ymarfer, a'u bod yn eu deall. Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff wedi darllen y rhain yn ystod y cyfnod sefydlu ac yn profi dealltwriaeth barhaus aelodau staff drwy eu goruchwyllo ac adolygu eu perfformiad. • Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff yn cyflawni eu dyletswyddau'n unol â gofynion y polisiâu a'r gweithdrefnau. • Mae'r holl staff yn cael disgrifiad swydd ysgrifenedig sy'n datgan yn glir eu cyfrifoldebau, y dyletswyddau y disgwylir iddynt eu cyflawni ar y pryd a'u llinell atebolrwydd. • Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd (o leiaf chwech bob blwyddyn), a chaiff y materion hyn eu cofnodi a chymerir camau priodol yn sgil hynny.
--	--

Rheoliad 32	Canllawiau
<p>Gweithdrefn ddisgyblu</p> <p>32.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi gweithdrefn ddisgyblu yn ei lle a'i gweithredu.</p> <p>(2) Rhaid i'r weithdrefn ddisgyblu gynnwys—</p> <p>(a) darpariaeth ar gyfer atal dros dro, a chymryd camau gweithredu heb fod mor bell ag atal dros dro, gyflogai er budd diogelwch neu lesiant pobl sy'n defnyddio'r</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau weithdrefn ddisgyblu, yn unol â'r gyfraith cyflogaeth, i ymdrin â pherfformiad ac ymddygiad gweithiwr. Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ gwybodaeth ynghylch yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol ac yn ymddygiad annerbyniol a pha gamau a gymerir os bydd pryderon am ymddygiad staff; ac ○ y trefniadau i aelod staff gael ei atal o'i waith (neu ei drosglwyddo i wneud dyletswyddau eraill) tra bydd

<p>gwasanaeth;</p> <p>(b) darpariaeth bod methiant ar ran cyflogai i adrodd am achos o gam-drin, neu am amheuaeth o gam-drin, i berson priodol yn sail dros ganiatáu cychwyn achos disgyblu.</p> <p>(3) At ddiben paragraff (2)(b), person priodol yw—</p> <p>(a) y darparwr gwasanaeth,</p> <p>(b) yr unigolyn cyfrifol,</p> <p>(c) swyddog i'r rheoleiddiwr gwasanaethau,</p> <p>(d) swyddog i'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y darperir y gwasanaeth ynddi,</p> <p>(e) yn achos cam-drin neu amheuaeth o gam-drin plentyn, swyddog i'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, neu</p> <p>(f) swyddog heddlu.</p>	<p>ymchwiliad yn cael ei gynnal i unrhyw honiadau o gamymddwyn difrifol, gan gynnwys honiadau o gam-drin neu bryder difrifol ynglŷn â diogelwch neu lesiant unigolion.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Os bydd y darparwr gwasanaeth yn cymryd camau disgyblu yn erbyn gweithiwr a bod y gweithiwr yn ymadael cyn i'r broses ddisgyblu ddod i ben, ystyrir a fyddai'n briodol cyfeirio'r mater at yr heddlu, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, GCC neu gorff proffesiynol arall. . • Os oes cwestiwn ynghylch addasrwydd gwirfoddolwr i ymarfer, oherwydd unrhyw gamymddwyn honedig a/neu ddiffyg gallu sy'n peri pryder, bydd y darparwr gwasanaeth yn cymryd camau priodol ac amserol. Gallai hyn gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol; ○ dod â'r trefniant gwirfoddoli i ben; ac ○ cyfeirio'r mater at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu'r heddlu, lle bo hynny'n briodol. . • Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau disgyblu a'r gweithdrefnau cwyno perthnasol, ac yn eu deall. • Mae adroddiad ysgrifenedig am unrhyw ymchwiliadau disgyblu a'r camau a gymerir yn cael ei gadw ar ffeil y gweithiwr yn unol â'r ddeddfwriaeth ar gyflogaeth a diogelu data.
--	--

1.8 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran gofalwyr lleoli oedolion (Rhan 9)

Bwriad Rhan 9 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cael cefnogaeth effeithiol gan ddarparwyr gwasanaethau er mwyn iddynt ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn sydd wedi'i leoli gyda nhw.

Mae gan ddarparwyr gwasanaethau y canlynol ar waith:

- polisïau a gweithdrefnau sylfaenol ar gyfer recriwtio a hyfforddi;
- arferion trwyadl ar gyfer recriwtio ac archwilio cefndir gofalwyr lleoli oedolion;
- trefniadau sy'n hwyluso perthynas effeithiol rhwng y darparwr gwasanaeth a'r gofalwyr lleoli oedolion; ac
- trefniadau i sicrhau bod gan ofalwyr lleoli oedolion yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i roi cymorth a gofal.

Rheoliad 33	Canllawiau
<p>Recriwtio a hyfforddi gofalwyr lleoli oedolion</p> <p>33.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisïau a gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer recriwtio a hyfforddi gofalwyr lleoli oedolion.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cael hyfforddiant digonol er mwyn eu cynorthwyo i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel ar gyfer unigolion yn unol â'r cynllun personol ac i gefnogi pob unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol.</p>	<ul style="list-style-type: none">• Mae gan ddarparwyr gwasanaethau bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a hyfforddi gofalwyr lleoli oedolion i ddiwallu anghenion unigolion y bwriedir darparu gwasanaeth ar eu cyfer.• Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod y rheini sydd â diddordeb mewn dod yn ofalwyr lleoli oedolion yn cael eu trin yn deg, heb ragfarnu, yn agored a chyda pharch. Ymdrinnir ag ymholiadau'n gwrtais ac yn effeithlon gan staff sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol.• Mae gofalwyr lleoli oedolion arfaethedig yn cael gwybodaeth berthnasol yn amserol ar ôl eu hymholiad cychwynnol, ac maent yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd unrhyw broses recriwtio dilynol.

- Mae'r broses recriwtio yn cael ei hamlinellu'n glir i ofalwyr lleoli oedolion arfaethedig, gan gynnwys:
 - y rhinweddau, y sgiliau neu'r cymwysterau y gofynnir amdanynt neu i'w cyflawni;
 - y safonau i'w cymhwyso yn yr asesiad;
 - camau'r broses ddethol a'i chynnwys ynghyd â'r amserlenni posibl; ac
 - yr wybodaeth i'w rhoi i'r ymgeiswyr.
- Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion sydd wedi'u recriwtio gan y gwasanaeth yn cael hyfforddiant yn unol â'r Rheoliadau hyn er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth unrhyw unigolion sy'n cael eu lleoli gyda nhw.
- Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol i'w galluogi i ddarparu gofal a chymorth i unrhyw unigolyn sy'n cael ei leoli gyda nhw yn unol â'i gynllun personol. Caiff meysydd hyfforddiant penodol eu hamlinellu yn y Rheoliadau hyn.
- Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod unrhyw hyfforddiant (sefydlu, parhaus neu fel arall) a ddarperir i ofalwyr lleoli oedolion yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.
- Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau i fonitro ac adolygu'r hyfforddiant a roddir i'r gofalwyr lleoli oedolion a'u gallu i ddarparu cymorth a gofal o ansawdd uchel. Mae hyn yn bwydo i'r adolygiad Ansawdd Gofal.

Rheoliad 34	Canllawiau
<p>Perthnasoedd effeithiol</p> <p>34. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) cynnal perthnasoedd proffesiynol da â gofalwr lleoli oedolion; a</p> <p>(b) annog a chynorthwyo gofalwr lleoli oedolion i gynnal perthnasoedd personol da ag unigolion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau i oruchwylio'r gofalwr lleoli oedolion a'r unigolyn sydd wedi'i leoli ag ef. • Mae darparwyr gwasanaethau'n cefnogi gofalwyr lleoli oedolion i ddatblygu a chynnal perthynas gadarnhaol â'r unigolyn sydd wedi'i leoli â nhw.

Rheoliad 35	Canllawiau
<p>Cymorth a gwybodaeth ar gyfer gofalwyr lleoli oedolion</p> <p>35. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod gan ofalwr lleoli oedolion yr wybodaeth y mae ei hangen arno i ddarparu gofal a chymorth i unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cael y cymorth a'r wybodaeth angenrheidiol i'w galluogi i ddarparu gofal a chymorth i unrhyw unigolyn sy'n cael ei leoli gyda nhw yn unol â'i gynllun personol. Caiff meysydd penodol o gymorth a gwybodaeth eu hamlinellu yn y Rheoliadau hyn. • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau i fonitro ac adolygu'r cymorth a'r wybodaeth a roddir i'r gofalwyr lleoli oedolion. Mae hyn yn bwydo i'r adolygiad ansawdd gofal. • Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cael hyfforddiant sefydlu sy'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ y datganiad o ddiben; ac ○ polisiau a gweithdrefnau craidd.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gofalwyr lleoli oedolion yn cael adborth, pan fo ar gael, yn ystod neu ar ôl cwblhau unrhyw leoliad. • Mae gofalwyr lleoli oedolion yn cael cymorth i ddilyn hyfforddiant perthnasol i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl. • Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn gwybod am y cymorth sydd ar gael iddynt pe bai unrhyw honiadau / cwynion yn cael eu gwneud yn eu herbyn. • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau i gefnogi gofalwyr lleoli oedolion y tu allan i oriau swyddfa arferol, ac mae'r gofalwyr lleoli oedolion yn gyfarwydd â'r trefniadau hynny.
--	--

Rheoliad 36	Canllawiau
<p>Addasrwydd gofalwyr lleoli oedolion</p> <p>36.—(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth ymrwymo i gytundeb gofalwr â gofalwr lleoli oedolion oni bai bod y gofalwr yn addas i fod yn ofalwr.</p> <p>(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i fod yn ofalwr lleoli oedolion oni bai—</p> <ol style="list-style-type: none"> (a) bod y person yn addas o ran ei uniondeb ac o gymeriad da; (b) bod gan y person y cymwysterau, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwaith y mae i'w wneud; (c) bod y person, oherwydd ei iechyd, ar ôl i addasiadau 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau systemau trwyadl ar waith er mwyn iddynt allu penderfynu a ddylid cymeradwyo unigolyn i fod yn ofalwr lleoli oedolion. Mae hyn yn cynnwys yr wybodaeth sydd yn atodlen 1 o'r Rheoliadau. • Wedi ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, dylai darparwyr gwasanaethau benderfynu a oes gan yr unigolyn dan sylw i fod yn ofalwr lleoli oedolion y sgiliau, y cymwysterau a'r cymeriad angenrheidiol i gyflawni'r rôl hon. • Os na fydd gofalwr lleoli oedolion bellach yn bodloni'r meini prawf addasrwydd a nodir yn rheoliad 36(2), bydd y darparwyr gwasanaethau'n cymryd camau priodol yn ddi-oed yn unol â rheoliad 36(7) i sicrhau na fydd risg i unigolion. Er

rhesymol gael eu gwneud, yn gallu cyflawni'n briodol y tasgau sy'n rhan annatod o'r gwaith y mae wedi ei gymryd ymlaen ar ei gyfer;

- (d) bod y person wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol, yn ôl y digwydd, mewn cysylltiad â phob un o'r materion a bennir yn Atodlen 1 a bod yr wybodaeth hon neu'r ddogfennaeth hon ar gael gan y darparwr gwasanaeth i'r rheoleiddiwr gwasanaethau edrych arni.

(3) Rhaid i gais gael ei wneud am y dystysgrif y cyfeirir ati ym mharagraffau 2 a 3 o Atodlen 1 (y cyfeirir ati yn y rheoliad hwn fel tystysgrif GDG) gan neu ar ran y darparwr gwasanaeth at ddiben asesu addasrwydd person i fod yn ofalwr lleoli oedolion. Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os yw'r gofalwr lleoli oedolion wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn fel gwasanaeth diweddarau'r GDG).

(4) Pan fo person sy'n cael ei ystyried i fod yn ofalwr lleoli oedolion wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddarau'r GDG, rhaid i'r darparwr gwasanaeth wirio statws tystysgrif GDG y person at ddiben asesu addasrwydd y person hwnnw i fod yn ofalwr lleoli oedolion.

(5) Pan fo person a gymeradwywyd i fod yn ofalwr lleoli oedolion wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddarau'r GDG, rhaid i'r darparwr gwasanaeth wirio statws tystysgrif GDG y person o leiaf bob blwyddyn.

(6) Pan na fo person a gymeradwywyd i fod yn ofalwr lleoli oedolion wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddarau'r GDG, rhaid i'r darparwr gwasanaeth wneud cais am dystysgrif GDG newydd mewn cysylltiad â'r person hwnnw o fewn tair blynedd i ddyroddi'r dystysgrif y gwneir cais amdani yn unol â pharagraff (3) ac wedi hynny rhaid i geisiadau pellach o'r fath gael eu

enghraifft, gallai hyn gynnwys darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol.

- Os oes unrhyw bryderon bod gofalwr lleoli oedolion wedi cam-drin unigolyn neu wedi rhoi unigolyn mewn perygl o gael ei gam-drin, bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael gwybod gan y darparwr gwasanaeth yn ddi-oed.

<p>gwneud o leiaf bob tair blynedd.</p> <p>(7) Os nad yw gofalwr lleoli oedolion yn addas i fod yn ofalwr lleoli oedolion mwyach o ganlyniad i beidio â bodloni un neu ragor o'r gofynion ym mharagraff (2), rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <ul style="list-style-type: none">(a) cymryd camau gweithredu angenrheidiol a chymesur i sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion perthnasol;(b) pan fo'n briodol, hysbysu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	
---	--

1.9 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar (Rhan 10)

Bwriad Rhan 10 o'r Rheoliadau yw rhestru'r hyn sy'n ofynnol gan ddarparwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth unigolyn yn cael eu darparu ar gyfer unigolion mewn lleoliad ac amgylchedd â chyfleusterau a, lle y bo hynny'n berthnasol, gydag unrhyw gyfleusterau ac offer sy'n hyrwyddo cyflawni eu canlyniadau personol.

Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith sy'n hybu amgylchedd diogel o safon uchel lle darperir y gwasanaeth; ac
- trefniadau i sicrhau bod y safle a, lle bo'n briodol, unrhyw gyfleusterau ac offer a ddefnyddir gan ofalwyr lleoli oedolion yn ddiogel ac yn addas i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn.

Rheoliad 37	Canllawiau
<p>Gofyniad cyffredinol</p> <p>37. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y mangreoedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar yn addas ar gyfer y gwasanaeth, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i leoliad, cynllun a maint yr eiddo fod yn addas ar gyfer y gwasanaeth, fel y caiff ei ddisgrifio yn y datganiad o ddiben.
Rheoliad 38	Canllawiau
<p>Digonolrwydd mangreoedd</p> <p>38. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod gan y mangreoedd a ddefnyddir ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth gyfleusterau digonol ar gyfer—</p> <p>(a) goruchwyllo staff;</p> <p>(b) storio cofnodion yn ddiogel.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau le addas yn yr eiddo, fel ystafell gyfarfod a rennir, i sicrhau preifatrwydd ar gyfer goruchwyllo staff. • Mae cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â gofynion deddfwriaethol.

Rheoliad 39	Canllawiau
<p>Mangroedd, cyfleusterau a chyfarpar - gofalwyr lleoli oedolion</p> <p>39. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael trefniadau yn eu lle i sicrhau bod y mangroedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir gan ofalwyr lleoli oedolion i ddiwallu anghenion unigolion—</p> <p>(a) yn addas ac yn ddiogel i'r diben y bwriedir iddynt gael eu defnyddio ato;</p> <p>(b) yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel;</p> <p>(c) yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol;</p> <p>(d) yn cael eu cadw'n lân yn unol â safon sy'n briodol i'r diben y maent yn cael eu defnyddio ato;</p> <p>(e) yn achos cyfarpar, yn cael ei storio'n briodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau i fonitro'r safle, y cyfleusterau a'r offer a ddefnyddir gan ofalwyr lleoli oedolion i ddarparu gofal a chymorth i unigolyn sydd wedi'i leoli gyda nhw. • Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod safleoedd gofalwyr lleoli oedolion yn addas; eu bod yn hygyrch, yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u bod yn diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn mewn ffordd gyfforddus a chartrefol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod safleoedd yn gyfforddus, yn lân, a bod goleuni addas a digonol yno, a bod y gwres a'r cyfleuster awyru yn hygyrch. • Mae gan safleoedd gofalwyr lleoli oedolion fynediad addas at amwynderau a thrafnidiaeth leol a chymorth perthnasol i wasanaethau i fod yn addas i anghenion yr unigolyn. • Mae safleoedd gofalwyr lleoli oedolion yn gwbl hygyrch i'r unigolion sy'n defnyddio cadair olwyn, lle bo hynny'n berthnasol. Mae hyn yn cynnwys mynediad gwastad i'r cartref a drysau llydan i ardaloedd cymunedol, ystafell wely'r unigolyn, unrhyw gyfleusterau ymolchi a thŷ bach ac unrhyw fannau eraill y mae gan ddefnyddwyr cadair olwyn fynediad atynt.

1.10 Gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau (Rhan 11)

Bwriad Rhan 11 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion yn cael eu gwarchod gan wasanaeth sy'n gweithio'n rhagweithiol i gefnogi a sicrhau eu hawliau a'u llesiant drwy:

- gadw cofnodion cywir sydd ar gael iddynt hwy a'u cynrychiolwyr;
- sicrhau gwasanaeth agored a thryloyw drwy gyhoeddi polisi a gweithdrefn gwyno hawdd i bobl eu defnyddio;
- cefnogi staff i leisio pryderon am y gwasanaeth drwy weithdrefnau chwythu'r chwiban; ac
- dangos eu bod yn dysgu yn sgil pryderon a chwynion er mwyn gwella'r gwasanaeth.

Rheoliad 40	Canllawiau
<p>Cofnodion</p> <p>40.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gadw a chynnal y cofnodion a bennir yn Atodlen 2 mewn cysylltiad â phob man y darperir gwasanaeth ohono.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) sicrhau bod cofnodion sy'n ymwneud ag unigolion yn gywir ac yn gyfredol;</p> <p>(b) cadw pob cofnod yn ddiogel;</p> <p>(c) gwneud trefniadau addas er mwyn i'r cofnodion barhau i gael eu cadw'n ddiogel os bydd y gwasanaeth yn cau;</p> <p>(d) rhoi'r cofnodion ar gael i'r rheoleiddiwr gwasanaethau ar gais;</p> <p>(e) cadw cofnodion sy'n ymwneud ag unigolion am dair blynedd o ddyddiad y cofnod diwethaf;</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisi a gweithdrefnau ar waith ar gyfer cofnodi a rheoli cofnodion. • Mae'r staff yn ymwybodol o'r polisi ac yn deall yn glir y gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a rheoli cofnodion. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ym maes gwarchod gwybodaeth a'r camau i'w cymryd pan fydd perygl i wybodaeth bersonol gael ei datgelu. • Mae'r gofalwyr lleoli oedolion yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a rheoli cofnodion. Mae gofalwyr lleoli oedolion yn deall pa wybodaeth y mae angen iddynt ei throsglwyddo i'r darparwr gwasanaeth am yr unigolyn. • Mae darparwyr gwasanaethau'n cadw'r holl gofnodion sy'n

<p>(f) sicrhau bod unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth—</p> <p>(i) yn gallu cael mynediad i'w cofnodion; a</p> <p>(ii) yn cael eu gwneud yn ymwybodol eu bod yn gallu cael mynediad i'w cofnodion.</p>	<p>ofynnol er mwyn amddiffyn unigolion a chynnal y gwasanaeth yn effeithiol yn unol â'r hyn a bennir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae pob cofnod yn cael ei gadw'n ddiogel, yn cael ei ddiweddarau a bydd trefn dda arno. Maent yn cael eu paratoi, eu cynnal a'u defnyddio yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data a gofynion statudol eraill. • Mae cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel, gan gynnwys cofnodion electronig dan warchodaeth cyfrinair. • Mae unigolion, gofalwyr lleoli oedolion a staff yn cael gweld unrhyw gofnodion a'r wybodaeth a gedwir amdanynt gan y darparwyr gwasanaethau yn unol â gofynion cyfreithiol cyfredol.
--	--

Rheoliad 41	Canllawiau
<p>Hysbysiadau</p> <p>41.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y digwyddiadau a bennir yn Atodlen 3.</p> <p>(2) Rhaid i'r hysbysiad gynnwys manylion y digwyddiad.</p> <p>(3) Oni nodir fel arall, rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig.</p> <p>(4) Rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol gan y rheoleiddiwr gwasanaethau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau priodol ar waith er mwyn i'r rheoleiddiwr gwasanaethau gael ei hysbysu ynghylch am y digwyddiadau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau. • Mae hysbysiadau'n cael eu gwneud yn ddi-oed, o fewn 24 awr i'r digwyddiad fel arfer.

Rheoliad 42	Canllawiau
<p>Gwrthdaro buddiannau</p> <p>42. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael trefniadau effeithiol yn eu lle i nodi, cofnodi a rheoli achosion posibl o wrthdaro buddiannau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r darparwyr gwasanaethau'n cynnal systemau priodol ac yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gwrthdaro gwirioneddol neu wrthdaro ymddangosiadol rhwng buddiannau'n cael eu nodi, eu hatal a'u cofnodi'n agored.

Rheoliad 43	Canllawiau
<p>Polisi a gweithdrefnau cwyno</p> <p>43.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi cwyno yn ei le a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei weithredu yn unol â'r polisi hwnnw.</p> <p>(2) Rhaid i'r polisi cwyno gynnwys gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion a wneir i'r darparwr gwasanaeth gan ofalwyr lleoli oedolion ynghylch—</p> <p>(a) y darparwr, a</p> <p>(b) unrhyw fater arall y mae'r darparwr yn ystyried ei fod yn berthnasol.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer ymdrin â chwynion gan gynnwys trefniadau ar gyfer—</p> <p>(a) nodi cwynion ac ymchwilio iddynt;</p> <p>(b) rhoi ymateb priodol i berson sy'n gwneud cwyn, os yw'n rhesymol ymarferol cysylltu â'r person hwnnw;</p> <p>(c) sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd yn dilyn ymchwiliad;</p> <p>(d) cadw cofnodion sy'n ymwneud â'r materion</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisi cwyno yn ei le. Mae hwn yn cynnwys manylion y gweithdrefnau a nodir yn rheoliad 43. • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau bolisi cwyno hawdd ei ddefnyddio sy'n cynnwys cam datrys anffurfiol, pan fo hynny'n briodol. Bydd y polisi'n esbonio: <ul style="list-style-type: none"> ○ pwy all wneud cwyn ac mewn perthynas â beth; ○ at bwy y dylid mynd i drafod pryder/cwyn; ○ sut gellir helpu unigolion a gofalwyr lleoli oedolion i wneud cwyn; ○ gwybodaeth am gael eiriolaeth annibynnol, os bydd ar gael; ○ sut ymdrinnir â chwynion; ac ○ camau ac amserlenni'r broses. • Mae'r polisi mewn fformat hawdd ei ddarllen, wedi'u gyhoeddi'n dda, ar gael yn hwylus ac yn hygyrch i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, unrhyw gynrychiolydd a'r gofalwyr lleoli oedolion.

yn is-baragraffau (a) i (c).

(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu crynodeb o gwynion, ymatebion a chymau gweithredu dilynol i'r rheoleiddiwr gwasanaethau o fewn 28 o ddiwrnodau i gael cais i wneud hynny.

(5) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—

(a) dadansoddi gwybodaeth sy'n ymwneud â chwynion a phryderon; a

(b) gan roi sylw i'r dadansoddiad hwnnw, nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

- Mae gwybodaeth ynghylch ffyrdd eraill o gwyno wedi'i chynnwys er mwyn helpu'r rhai sy'n cwyno os nad ydynt yn fodlon â chymau gweithredu'r darparwr gwasanaeth. Er enghraifft, gwybodaeth am weithdrefn gwynion yr awdurdod lleoli ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Mae unigolion a gofalwyr lleoli oedolion yn gallu gwneud eu cwyn yn ysgrifenedig neu ar lafar i'r staff a dylai'r rhain gael eu cydnabod oni bai bod y cwynion wedi'u gwneud yn ddiennw.
- Mae staff yn ymwybodol o'r polisi a'r weithdrefn gwyno ac yn deall sut mae ymateb yn briodol i gwynion.
- Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod unrhyw gwynion yn cael eu cadarnhau, yn cael sylw'n ddi-oed a bod yr achwynydd yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.
- Rhoddir adroddiad ysgrifenedig i'r achwynydd yn nodi canlyniad y gŵyn ac unrhyw gamau i'w cymryd.
- Ceir cydsyniad a chedwir cyfrinachedd drwy gydol y broses gwyno oni fydd rhwymedigaethau proffesiynol neu statudol sy'n golygu na fyddai hyn yn bosibl, fel y rhai sy'n ymwneud â diogelu.
- Bydd darparwyr yn sicrhau bod unrhyw gŵyn yn cael ei chydabod ac yn cael sylw'n ddi-oed a bod yr achwynydd yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau, oni bai bod y gŵyn wedi'i gwneud yn ddiennw.
- Bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu i'r

achwynydd yn nodi canlyniad y gŵyn ac unrhyw gamau sydd i'w cymryd.

- Lle bo'n ymarferol, dylid cael caniatâd i ddatgelu manylion achwynydd lle bo angen, er mwyn galluogi i ymchwiliad effeithiol gael ei gynnal.
- Sicrheir cyfrinachedd drwy gydol y broses gwyno oni fydd rhwymedigaethau proffesiynol neu statudol sy'n golygu na fyddai hyn yn bosibl, fel y rheini sy'n ymwneud â diogelu.
- Ni fydd unigolion yn wynebu unrhyw erledigaeth nac unrhyw anfantais arall oherwydd iddynt gyflwyno cwynion.
- Mae systemau ar waith i sicrhau yr ymchwilir i bob cwyn yn unol â'r amserlenni sydd wedi'u nodi ym mholisi cwynion y darparwr gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys:
 - cynnal adolygiad i bennu lefel yr ymchwiliad a'r camau y bydd gofyn eu cymryd ar unwaith, gan gynnwys a oes gofyn cyfeirio'r achos at yr awdurdodau priodol er mwyn cynnal ymchwiliad. Gallai hyn gynnwys rheoleiddiwr y gwasanaeth neu dimau diogelu'r awdurdod lleol; ac
 - os gwelir bod meysydd lle mae angen gwella neu lle mae'r gwasanaeth yn methu, gweithredu ar y rhain ar unwaith.
- Mae gan staff a phobl eraill sy'n ymwneud ag ymchwilio i gwynion y lefel gywir o wybodaeth a sgiliau i wneud hyn. Maent yn deall proses gwynion y darparwr gwasanaeth ac yn wybodus am unrhyw ganllawiau cyfredol cysylltiedig.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae cofnodion o gwynion yn cael eu cadw a'u monitro i nodi tueddiadau a meysydd risg lle y gall fod angen cymryd camau rhagataliol. • Adroddir ynghylch y camau a gymerir i ymateb i gwynion fel rhan o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth.
--	---

Rheoliad 44	Canllawiau
<p>Chwythu'r chwiban</p> <p>44.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael trefniadau yn eu lle i sicrhau bod pob person sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys unrhyw berson y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr) yn gallu codi pryderon am faterion a all effeithio'n andwyol ar iechyd, diogelwch neu lesiant unigolion y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer.</p> <p>(2) Rhaid i'r trefniadau hyn gynnwys—</p> <p>(a) cael polisi chwythu'r chwiban yn ei le a gofyniad i weithredu yn unol â'r polisi hwnnw, a</p> <p>(b) sefydlu trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth i godi pryderon o'r fath.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y trefniadau sy'n ofynnol o dan y rheoliad hwn yn cael eu gweithredu'n effeithiol.</p> <p>(4) Pan godir pryder, rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau—</p> <p>(a) yr ymchwilir i'r pryder;</p> <p>(b) y cymerir camau priodol yn dilyn ymchwiliad;</p> <p>(c) y cedwir cofnod o bob un o'r camau hyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisi hygyrch ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban.. Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ y drefn ar gyfer lleisio pryder; ○ y dulliau diogelu sydd ar waith ar gyfer staff neu ofalwyr lleoli oedolion sy'n lleisio pryder; ac ○ sut yr ymchwilir i bryderon. • Mae staff a gofalwyr lleoli oedolion yn ymwybodol o sut mae lleisio pryderon, maent wedi cael hyfforddiant ar sut mae gwneud hyn, ac mae systemau a chymorth ar gael i'w galluogi i wneud hyn. • Lle bo'n ymarferol, dylid cael caniatâd i ddatgelu manylion achwynydd lle bo angen, er mwyn galluogi i ymchwiliad effeithiol gael ei gynnal. • Sicrheir cyfrinachedd drwy gydol y broses gwyno oni fydd rhwymedigaethau proffesiynol neu statudol sy'n golygu na fyddai hyn yn bosibl, fel y rheini sy'n ymwneud â diogelu. • Ni fydd unigolion yn wynebu unrhyw erledigaeth nac unrhyw anfantais arall oherwydd iddynt fynegi pryderon.

- Gweithredir yn brydlon bob honiad ac achos o gam-drin yn unol â pholisi a gweithdrefnau diogelu'r darparwr gwasanaeth a'r trefniadau diogelu lleol.
- Mae systemau ar waith i wneud yn siŵr bod pob pryder yn cael ei ystyried yn ddi-oed, yn unol â pholisi a gweithdrefnau diogelu'r darparwr gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys:
 - cynnal adolygiad i benderfynu ar lefel yr ymchwiliad a'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd ar unwaith, gan gynnwys cyfeirio'r achos at yr awdurdodau priodol i ymchwilio iddo. Gallai hyn olygu gofyn am gyngor gan y rheoleiddiwr gwasanaethau neu gan staff diogelu yn yr awdurdod lleol;
 - lle gwelir bod lle i wella, neu fethiant mewn gwasanaethau, gweithredir ar y rhain yn ddi-oed; ac
 - sicrhau bod staff ac eraill sy'n ymwneud ag ymchwilio i bryderon yn deall y prosesau'n ymwneud â diogelu ac ymateb i bryderon.
- Mae cofnodion o gwynion yn cael eu cadw a'u monitro i nodi tueddiadau a meysydd risg lle y gall fod angen cymryd camau rhagataliol. Mae camau a gymerir wrth ymateb i chwythu'r chwiban yn cael eu hadrodd o fewn y trefniadau llywodraethu.

Pennod 2: Y gofynion ar Unigolion Cyfrifol (Rhannau 12 i 16 o'r Rheoliadau)

Bwriad Rhannau 12 i 16 o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolyn dynodedig ar lefel uwch briodol yn atebol am ansawdd y gwasanaeth a hefyd am gydymffurfio. Mae'r Rheoliadau'n gosod gofynion penodol ar yr unigolyn cyfrifol a bydd yn galluogi i reoleiddiwr y gwasanaeth gymryd camau yn erbyn y darparwr gwasanaeth ac yn erbyn yr unigolyn cyfrifol oni chydymffurfir â'r gofynion rheoliadol. Mae'r rheoliadau yn y Rhannau hyn wedi eu gwneud o dan adran 28 o'r Ddeddf.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn gyfrifol am **oruchwylio** rheolaeth y gwasanaeth ac am roi sicrwydd bod y gwasanaeth yn ddiogel, yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gyfrifol am sicrhau bod gan y gwasanaeth reolwr, digon o adnoddau a chefnogaeth. Nid yr unigolyn cyfrifol fydd yn gyfrifol am reolaeth y gwasanaeth o ddydd i ddydd (heblaw ei fod yn rheolwr hefyd); y rheolwr fydd yn gyfrifol am hyn.

2.1 Gofynion ar unigolion cyfrifol ay gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol (Rhan 12)

Rheoliad 45	Canllawiau
<p>Goruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth</p> <p>45. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth, sy'n cynnwys cymryd y camau a ddisgrifir yn rheoliadau 51 a 52.</p>	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r unigolyn cyfrifol yn dilyn y systemau a'r prosesau a ragnodwyd gan y darparwr gwasanaeth er mwyn galluogi goruchwyliaeth briodol dros reolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:<ul style="list-style-type: none">○ yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn ac yn cefnogi'r gofalwr lleoli oedolion;○ yn gwrando ar unigolion a'r gofalwyr lleoli oedolion;○ yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw bryderon neu yn

	<p>gwynion;</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ yn siicrhau nad yw unigolion na gofalwyr lleoli oedolion yn cael eu rhoi mewn perygl diangen; ○ yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r unigolion a'r gofalwyr lleoli oedolion; ○ yn cyflawni'r datganiad o ddiben; ac ○ yn cyflogi nifer digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi, sy'n gymwys ac sy'n fedrus i gyflawni eu rôl. <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr unigolyn cyfrifol systemau i adolygu ac asesu sut mae'r rheolwr yn rhoi camau ar waith a nodwyd yng nghanfyddiadau adroddiadau sicrhau ansawdd mewnol ac arolygu allanol, o fewn yr amserlenni a bennwyd. • Mae llinellau atebolrwydd, dirprwyo a chyfrifoldeb clir ar gael yn ysgrifenedig rhwng yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr (heblaw mai'r rheolwr yw'r unigolyn cyfrifol hefyd). • Mae trefniadau i'r rheolwr allu cysylltu'n uniongyrchol â'r unigolyn cyfrifol yn ogystal â'r cyfle i gyfarfod yn ffurfiol fel rhan o adolygiadau ansawdd yr unigolyn cyfrifol (heblaw mai'r rheolwr yw'r unigolyn cyfrifol hefyd). • Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y rheolwr yn cael cymorth drwy ei oruchwylio a'i hyfforddi, a rhoi cyfle iddo feddu ar sgiliau ar gyfer ei ddatblygiad proffesiynol sy'n gefn iddo yn ei rôl.
--	--

Rheoliad 46	Canllawiau
<p>Dyletswydd i benodi rheolwr</p> <p>46.—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol benodi person i reoli'r gwasanaeth. Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os yw'r amodau ym mharagraff (2) neu (3) yn gymwys.</p> <p>(2) Yr amodau yw—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) bod y darparwr gwasanaeth yn unigolyn; (b) bod y darparwr gwasanaeth yn bwriadu rheoli'r gwasanaeth; (c) bod y darparwr gwasanaeth yn addas i reoli'r gwasanaeth; (d) bod y darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol â GCC; ac (e) bod y rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno i'r darparwr gwasanaeth reoli'r gwasanaeth. <p>(3) Yr amodau yw—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) bod y darparwr gwasanaeth yn bartneriaeth, yn gorff corfforaethol neu'n gorff anghorfforedig; (b) bod y darparwr gwasanaeth yn cynnig bod yr unigolyn sydd wedi ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol am y gwasanaeth i'w benodi i reoli'r gwasanaeth; (c) bod yr unigolyn hwnnw yn addas i reoli'r gwasanaeth; (d) bod yr unigolyn hwnnw wedi ei gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol â GCC; ac (e) bod y rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno i'r unigolyn hwnnw reoli'r gwasanaeth. <p>(4) At ddibenion paragraff (2)(c), nid yw'r darparwr gwasanaeth yn addas i reoli'r gwasanaeth oni bai bod gofynion rheoliad 28(2) (addasrwydd staff) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r darparwr</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod rheolwr sydd wedi'i gofrestru â GCC (yn ddarostyngedig i reoliad 28(2)(e) yn cael ei benodi ac yn ei le i reoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd ar gyfer pob man y darperir y gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. • Mae'r unigolyn cyfrifol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd dros benodi'r rheolwyr, ni waeth a yw'n rhan uniongyrchol o'r broses recriwtio neu beidio. • Mae'r unigolyn cyfrifol yn dawel ei feddwl bod yr unigolyn a benodir i fod yn rheolwr y gwasanaeth yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd priodol i reoli'r gwasanaeth yn ddiogel ac yn ddibynadwy, yn unol â gofynion y Rheoliadau. • Mae'r unigolyn cyfrifol yn dangos bod diwydrwydd dyladwy wedi'i ddangos wrth benodi'r rheolwr yn ogystal â dilyn gofynion rheoliad 28 (addasrwydd staff). • Os bydd rheolwr yn absennol am gyfnod o fwy na thri mis, bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod rheolwr sydd â'r cymwysterau, y profiad a'r cymhwysedd priodol, ac wedi'i gofrestru â GCC (yn ddarostyngedig i reoliad 28(2)(e)) yn ei le i reoli'r gwasanaeth.

<p>gwasanaeth. (5) Nid yw'r ddyletswydd ym mharagraff (1) wedi ei chyflawni os yw'r person a benodir i reoli'r gwasanaeth yn absennol am gyfnod o fwy na thri mis.</p>	
--	--

Rheoliad 47	Canllawiau
<p>Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr</p> <p>47.—(1) Ni chaiff yr unigolyn cyfrifol benodi person i reoli'r gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny. (2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i reoli'r gwasanaeth oni bai bod gofynion rheoliad 28(2) (addasrwydd staff) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r person hwnnw.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i sicrhau bod y rheolwr yn gymwys ac yn gallu rhedeg y gwasanaeth yn unol â'i ddatganiad o ddiben. Mae hyn yn cynnwys sicrhau: <ul style="list-style-type: none"> ○ bod gan y rheolwr y cymwysterau priodol; ○ bod y rheolwr wedi'i gofrestru â GCC (yn ddarostyngedig i reoliad 28(2)(e)); ○ bod gan y rheolwr brofiad o reoli gwasanaethau gofal a darparu'r math o ofal sy'n cael ei ddarparu; ac ○ bod y broses o archwilio cefndir darpar reolwyr yn cynnwys yr archwiliadau perthnasol sy'n ofynnol gan reoliadau i dawelu meddwl yr unigolyn cyfrifol bod yr unigolyn yn gymwys ac yn gallu gweithio gydag unigolion agored i niwed.

Rheoliad 48	Canllawiau
<p>Cyfyngiadau ar benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth</p> <p>48.—(1) Ni chaiff yr unigolyn cyfrifol benodi person i reoli mwy nag un gwasanaeth, oni bai bod paragraff (2) yn gymwys. (2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys— (a) os yw'r darparwr gwasanaeth wedi gwneud cais i'r</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pan gaiff rheolwr ei benodi i reoli mwy nag un gwasanaeth, cytunir ar hyn ymlaen llaw â rheoleiddiwr y gwasanaeth.

<p>rheoleiddiwr gwasanaethau am ganiatâd i benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth, a</p> <p>(b) os yw'r rheoleiddiwr gwasanaethau wedi ei fodloni—</p> <p>(i) na fydd y trefniadau rheoli arfaethedig yn cael effaith andwyol ar iechyd neu lesiant unigolion, a</p> <p>(ii) y bydd y trefniadau rheoli arfaethedig yn darparu goruchwyliaeth ddibynadwy ac effeithiol o bob gwasanaeth.</p>	
---	--

Rheoliad 49	Canllawiau
<p>Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i'r darparwr gwasanaeth</p> <p>49. Wrth benodi rheolwr yn unol â rheoliad 46(1), rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi hysbysiad i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) o enw'r person a benodir, a</p> <p>(b) o'r dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i: <ul style="list-style-type: none"> ○ hysbysu'r darparwr gwasanaeth am fanylion penodiad y rheolwr; ○ darparu'r wybodaeth a bennir gan y Rheoliadau sy'n ymwneud â'r unigolyn; ac ○ hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth a GCC pan benodir rheolwr newydd.

Rheoliad 50
<p>Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i reoleiddiwr y gweithlu a'r rheoleiddiwr gwasanaethau</p> <p>50.—(1) Wrth benodi rheolwr yn unol â rheoliad 46(1), rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi hysbysiad i reoleiddiwr y gweithlu a'r rheoleiddiwr gwasanaethau—</p> <p>(a) o enw, dyddiad geni a rhif cofrestru GCC y person a benodir, a</p> <p>(b) o'r dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith.</p> <p>(2) Mewn achos pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn a bod y rheoleiddiwr gwasanaethau wedi cytuno i'r darparwr</p>

gwasanaeth reoli'r gwasanaeth, rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi hysbysiad i reoleiddiwr y gweithlu—

- (a) o enw, dyddiad geni a rhif cofrestru GCC y darparwr gwasanaeth, a
- (b) o'r dyddiad y mae'r darparwr gwasanaeth i reoli'r gwasanaeth ohono.

Rheoliad 51

Canllawiau

Y trefniadau pan yw'r rheolwr yn absennol

51.—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol ar unrhyw adeg pan nad oes rheolwr neu pan nad yw'r rheolwr yn bresennol yn y gwasanaeth.

(2) Os nad oes rheolwr neu os nad yw'r rheolwr yn bresennol yn y gwasanaeth am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid i'r unigolyn cyfrifol—

- (a) hysbysu'r darparwr gwasanaeth a'r rheoleiddiwr gwasanaethau, a
- (b) rhoi gwybod iddynt am y trefniadau sydd wedi eu rhoi yn eu lle ar gyfer rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol.

- Mae gan yr unigolyn cyfrifol strwythurau ar waith sy'n sicrhau, os na fydd y rheolwr ar gael neu os bydd yn absennol am unrhyw reswm, y bydd system ddirprwyo effeithiol a chymwys ar waith i ddarparu arweiniad o ddydd i ddydd sydd:
 - yn parhau i ddarparu cymorth i'r gofalwr lleoli oedolion a/neu'r unigolyn sydd wedi'i leoli gyda'r gofalwr lleoli oedolion;
 - yn cynnal diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth;
 - sicrhau yr amherir cyn lleied â phosibl ar yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r gofalywr lleoli oedolion;
 - yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau; ac
 - yn cynnal datblygiad proffesiynol staff.
- Os na fydd y rheolwr sydd wedi'i gofrestru â GCC (yn ddarostyngedig i reoliad 28(2)(e)) ar gael neu os bydd yn absennol am unrhyw reswm am fwy na 28 diwrnod, bydd yr unigolyn cyfrifol yn hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth yn ysgrifenedig ac yn ddi-oed am y rheswm dros yr absenoldeb a'r trefniadau i ddarparu rheolwr yn ei le.

Rheoliad 52	Canllawiau
<p>Ymweliadau</p> <p>52.—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol—</p> <p>(a) ymweld â'r fangre y darperir y gwasanaeth ohoni;</p> <p>(b) cwrdd ag aelodau o staff sydd wedi eu cyflogi i ddarparu'r gwasanaeth mewn perthynas â phob man y mae'r unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad ag ef, a</p> <p>(c) cwrdd ag unigolion y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar eu cyfer a'u gofalwr lleoli oedolion.</p> <p>(2) Mae amlder ymweliadau a chyfarfodydd o'r fath i'w benderfynu gan yr unigolyn cyfrifol gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ond rhaid iddynt gael eu cynnal o leiaf bob tri mis.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol i fonitro perfformiad y gwasanaeth yng nghyswllt ei ddatganiad o ddiben ac i lywio'r adolygiad o ansawdd y gwasanaeth. Mae'r ymweliad yn cynnwys y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ siarad, gyda chydsyniad ac yn breifat, â sampl o unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, unrhyw gynrychiolwyr, gofalwyr lleoli oedolion, a staff; ac ○ archwilio safle'r darparwr gwasanaeth, y dewis o gofnodion o ddigwyddiadau ac unrhyw gofnodion o gwynion. • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod systemau ar waith i ddarparu tystiolaeth bod ymweliadau wedi'u logio a'u cofnodi.

2.2 Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol (Rhan 13)

Rheoliad 53	Canllawiau
<p>Goruchwylio digonolrwydd adnoddau</p> <p>53.—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol adrodd i'r darparwr gwasanaeth am ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r gofynion ar y darparwr</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith sy'n eu galluogi i gasglu gwybodaeth am y gwasanaeth ac unrhyw feysydd lle y gall fod angen arsylwi/ystyriaeth fwy gofalus a/neu wella. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

<p>gwasanaeth yn Rhannau 2 i 11. (2) Rhaid i adroddiadau o'r fath gael eu gwneud yn chwarterol. (3) Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ trosiant staff; ○ lefelau salwch staff; ○ cwynion; ○ materion diogelu; ○ adroddiadau arolygu gan reoleiddiwr y gwasanaeth; ac ○ canlyniadau arolygiadau a / neu adroddiadau gan asiantaethau perthnasol eraill, h.y. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. <ul style="list-style-type: none"> ● Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i roi gwybod ar unwaith i'r darparwr gwasanaeth os bydd y gwasanaeth: <ul style="list-style-type: none"> ○ yn methu â chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau; ○ yn methu mynd i'r afael â materion a godwyd mewn adroddiadau arolygu neu os na all wneud hynny; ac ○ yn cael ei ddarparu mewn modd sy'n groes i'r datganiad o ddiben.
---	--

Rheoliad 54	Canllawiau
<p>Adroddiadau eraill i'r darparwr gwasanaeth</p> <p>54.—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol, yn ddi-oed, adrodd i'r darparwr gwasanaeth—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) am unrhyw bryderon ynghylch rheoli neu ddarparu'r gwasanaeth; (b) am unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli neu ei ddarparu; (c) am unrhyw bryderon nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben ar gyfer y 	<ul style="list-style-type: none"> ● Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i roi gwybod i'r darparwr gwasanaeth yn unol â gofynion Rheoliadau 54 a 59. ● Mae gan yr unigolyn cyfrifol system ar waith i gyflwyno adroddiadau i'r darparwr gwasanaeth sy'n adlewyrchu'n gywir ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau i'r unigolyn cyfrifol roi adborth ac i roi gwybod am unrhyw faterion brys y mae gofyn cymryd camau yn eu cylch ar unwaith. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

<p>gwasanaeth. (2) Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ marwolaeth annisgwyl neu heb esboniad unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu ofalwyr lleoli oedolion; ○ trychineb naturiol; ○ afreoleidd-dra ariannol; ○ achosion sylweddol o haint; ○ pryderon sylweddol a godwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth neu'r comisiynwyr; ac ○ unrhyw ddigwyddiad, sy'n effeithio ar y staff sydd ar gael.
--	---

Rheoliad 55	Canllawiau
<p>Ymgysylltu ag unigolion ac eraill</p> <p>55.—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle ar gyfer cael safbwyntiau—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) yr unigolion sy'n cael gofal a chymorth, (b) unrhyw gynrychiolwyr yr unigolion hynny, (c) gofalwyr lleoli oedolion, (d) comisiynwyr gwasanaethau, ac (e) staff sy'n cael eu cyflogi yn y gwasanaeth, <p>ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir a sut y gellir gwella hyn.</p> <p>(2) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol adrodd am y safbwyntiau a geir i'r darparwr gwasanaeth er mwyn i'r safbwyntiau hyn allu cael eu hystyried gan y darparwr gwasanaeth wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i alluogi adborth ar bob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir a sicrhau bod y trefniadau hyn yn hygyrch, ac yn ystyried barn pob un o'r rheini a restrir dan Reoliad 55(1). • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir i gysylltu ag unigolion a'r gofalwyr lleoli oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac i gael eu barn, yn briodol i'w hoed, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried unrhyw gyflwr penodol a neu anghenion o ran cyfathrebu. • Mae gan yr unigolyn cyfrifol berthynas gadarnhaol â phobl y tu allan i'r gwasanaeth, a bydd ar gael yn hwylus i'r bobl hynny. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd; ○ gofalwyr lleoli oedolion; ○ yr awdurdodau sy'n comisiynu; ac ○ rheoleiddwyr; a chyrrff proffesiynol.

2.3 Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd y gwasanaeth (Rhan 14)

Rheoliad 56	Canllawiau
<p>Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi digwyddiadau a chwynion</p> <p>56. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle i gofnodi digwyddiadau, cwynion a materion y mae rhaid gwneud hysbysiadau yn eu cylch yn unol â rheoliadau 41 a 63.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi'r materion a restrir yn Rheoliad 56. • Mae gan yr unigolyn cyfrifol systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod unrhyw gofnodion sy'n cael eu gwneud yn glir, yn gywir ac yn cael eu cadw'n ddiogel.
Rheoliad 57	Canllawiau
<p>Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion</p> <p>57. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle mewn perthynas â chadw cofnodion, sy'n cynnwys systemau ar gyfer sicrhau bod cofnodion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cadw gan reoliad 40 yn gywir ac yn gyflawn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Os bydd y cofnodion yn cael eu storio'n electronig, byddant yn ddiogel a bydd gan y staff godau mynediad unigol sy'n creu trywydd archwilio clir a fydd yn dangos pwy sydd wedi cofnodi a diwygio unrhyw wybodaeth.
Rheoliad 58	Canllawiau
<p>Dyletswydd i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn gyfredol</p> <p>58. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth yn cael eu cadw'n gyfredol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i adolygu polisiau a gweithdrefnau yn unol â Rheoliad 8. • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith fel bod staff a gofalwyr lleoli oedolion yn gallu cael gafael ar y polisiau a'r gweithdrefnau i'w helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion, a'u bod yn gwybod am y polisiau a'r gweithdrefnau hynny ac yn eu deall.

2.4 Gfynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth rheoleiddiedig (Rhan 15)

Rheoliad 59	Canllawiau
<p>Adolygiad o ansawdd y gofal</p> <p>59.—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.</p> <p>(2) Rhaid i'r system a sefydlir o dan baragraff (1) wneud darpariaeth i ansawdd y gwasanaeth gael ei adolygu mor aml ag sy'n ofynnol ond o leiaf bob chwe mis.</p> <p>(3) Fel rhan o unrhyw adolygiad a gynhelir, rhaid i'r unigolyn cyfrifol wneud trefniadau ar gyfer—</p> <p>(a) ystyried canlyniad yr ymgysylltiad ag unigolion ac eraill, fel sy'n ofynnol gan reoliad 55;</p> <p>(b) dadansoddi'r data cyfanredol ar ddigwyddiadau, digwyddiadau hysbysadwy, materion diogelu, chwythu'r chwiban, pryderon a chwynion;</p> <p>(c) adolygu unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn perthynas â chwynion;</p> <p>(d) ystyried canlyniad unrhyw archwiliad o gywirdeb a chyflawnrwydd cofnodion.</p> <p>(4) Ar ôl cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal a'r cymorth yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid i'r unigolyn cyfrifol lunio adroddiad i'r darparwr gwasanaeth y mae rhaid iddo gynnwys—</p> <p>(a) asesiad o safon y gofal a'r cymorth a ddarperir, a</p> <p>(b) argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth.</p> <p>(5) Ond nid yw'r gofyniad ym mharagraff (4) yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ casglu a dadansoddi'r adborth gan y rheini a restrir dan Reoliad 55(1); ○ casglu a dadansoddi'r adborth ar y gofal a'r cymorth a roddwyd i unigolyn sydd wedi'i leoli; ○ materion a gwersi a ddysgwyd wrth ddadansoddi cwynion a materion diogelu; ○ materion sy'n codi wrth fonitro pa mor ddigonol yw'r safleoedd lleoli oedolion a'u hansawdd; ○ patrymau a thueddiadau a nodwyd drwy ddadansoddi hysbysiadau, materion diogelu, pryderon a chwynion chwythu'r chwiban; ○ canlyniad unrhyw adroddiadau arolygu gan y rheoleiddwyr gwasanaethau; ○ canlyniad ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol i fonitro'r gwasanaeth; ac ○ archwiliadau o gyfrifon. • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y systemau a'r prosesau archwilio ar gyfer monitro ac adolygu'r gwasanaeth yn rhoi sicrwydd bod gwasanaeth o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant. • Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i wneud yn

siŵr bod systemau a phrosesau'n cael eu hadolygu'n barhaus fel bod yr unigolyn cyfrifol yn gallu gweld unrhyw beth sy'n amharu ar ansawdd a/neu ddiogelwch y gwasanaethau, neu a allai amharu arnynt, ac ymateb yn briodol heb oedi.

- Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau y caiff pob adborth ei gydnabod a'i gofnodi ac yr ymatebir iddo fel y bo'n briodol.
- Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau bod meysydd dysgu yn sgil cwynion, diogelu a chwythu'r chwiban yn cael eu rhannu â'r staff i wella'r gwasanaeth ac i annog arferion diogel a thosturiol ym maes gofal.
- Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau meysydd dysgu yn cael eu dadansoddi a bod argymhellion yn cael eu gwneud i'r darparwr gwasanaeth ynglŷn â sut ac ymhle y gellir gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae'r adroddiad, sy'n cynnwys y wybodaeth sydd wedi bod yn sail iddo (yn ymwneud â'r meysydd hynny a nodir uchod) yn llywio neu'n ffurfio rhan o'r datganiad cydymffurfio i'w cynnwys yn natganiad blynyddol y darparwr gwasanaeth.

Rheoliad 60	Canllawiau
<p>Datganiad o gydymffurfedd â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth</p> <p>60.—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol lunio'r datganiad y mae'n ofynnol iddo gael ei gynnwys yn y datganiad blynyddol o dan adran 10(2)(b) o'r Ddeddf, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r man neu'r manau y mae'r unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad ag ef neu â hwy.</p> <p>(2) Wrth lunio'r datganiad, rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi sylw i'r asesiad o safon y gofal a'r cymorth a gynhwysir mewn adroddiad a lunnir yn unol â rheoliad 59(4).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol wedi paratoi'r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad cydymffurfio a datganiad blynyddol y darparwr gwasanaeth, a bydd yn atebol am ei hansawdd a'i chywirdeb.

2.5 Gofynion eraill ar unigolion cyfrifol (Rhan 16)

Rheoliad 61	Canllawiau
<p>Cymorth ar gyfer staff sy'n codi pryderon</p> <p>61. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau y cydymffurfir â pholisi chwythu chwiban y darparwr gwasanaeth a bod y trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth i godi pryderon o'r fath yn cael eu gweithredu'n effeithiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ bod staff a gofalwyr lleoli oedolion yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban ac yn ei ddeall; ○ bod staff yn deall na fydd dim goddefgarwch i ofal gwael neu fethiant i ddiogelu llesiant oedolion; ○ sicrhau bod staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i roi gwybod am broblemau; ac ○ sicrhau bod staff yn deall bod croeso ac anogaeth iddynt fynegi pryderon, ac na fydd hynny'n cael ei anwybyddu.

Rheoliad 62	Canllawiau
<p>Dyletswydd gonestrwydd</p> <p>62. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol weithredu mewn ffordd agored a thryloyw gydag—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) yr unigolyn; (b) unrhyw gynrychiolwyr yr unigolion; (c) y gofalwyr lleoli oedolion; (d) comisiynwyr gwasanaethau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw, gan sicrhau hefyd bod trefniadau addas ar waith yn unol â gofynion rheoliad 62.
Rheoliad 63	Canllawiau
<p>Hysbysiadau</p> <p>63.—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y digwyddiadau a bennir yn Atodlen 4.</p> <p>(2) Rhaid i'r hysbysiadau sy'n ofynnol gan baragraff (1) gynnwys manylion y digwyddiad.</p> <p>(3) Oni nodir fel arall, rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig.</p> <p>(4) Rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol gan y rheoleiddiwr gwasanaethau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i roi gwybod i reoleiddiwr y gwasanaeth am ddigwyddiadau a nodir yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau.

Atodiad A: Rhannau o'r Rheoliadau nad yn destun y Canllawiau hyn

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Ebrill 2019.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “addasiadau rhesymol” (“*reasonable adjustments*”) yw unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010(7);

ystyr “ardal benodedig” (“*specified area*”) yw ardal a bennir mewn amod i gofrestriad y darparwr gwasanaeth fel man y mae'r gwasanaeth i'w ddarparu mewn perthynas ag ef;

ystyr “canlyniadau personol” (“*personal outcomes*”) yw'r canlyniadau y mae'r unigolyn sy'n cael y gofal a'r cymorth yn dymuno eu cyflawni mewn bywyd o ddydd i ddydd;

ystyr “comisiynydd y gwasanaeth” (“*service commissioner*”) yw'r awdurdod lleol neu'r corff GIG sy'n gyfrifol am wneud trefniadau â'r darparwr gwasanaeth er mwyn i ofal a chymorth gael eu darparu i unigolyn;

mae i “cyflogai” yr un ystyr ag “employee” yn adran 230(1) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996(8);

ystyr “cynllun gofal a chymorth” (“*care and support plan*”) yw cynllun o dan adran 54 o Ddeddf 2014(9);

ystyr “cynllun personol” (“*personal plan*”) yw'r cynllun y mae'n ofynnol iddo gael ei lunio yn unol â rheoliad 13(1);

ystyr “cynrychiolydd” (“*representative*”) yw unrhyw berson a chanddo awdurdod cyfreithiol, neu sydd wedi cael cydsyniad yr unigolyn sy'n cael y gofal a'r cymorth i weithredu ar ran yr unigolyn;

ystyr “cytundeb lleoli unigolyn” (“*individual placement agreement*”) yw cytundeb rhwng darparwr gwasanaeth, gofalwr lleoli oedolion ac unigolyn i ofalwr lleoli oedolion ddarparu llety a gofal a chymorth i'r unigolyn hwnnw;

ystyr “darparwr gwasanaeth” (“*service provider*”) yw person sy'n cynnal gwasanaeth lleoli oedolion(10);

ystyr “y datganiad o ddiben” (“*the statement of purpose*”) yw'r datganiad o ddiben ar gyfer y man y mae'r gwasanaeth wedi ei ddarparu ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef(11);

7 2010 p. 15.

8 1996 p. 18.

9 Diffinnir “Deddf 2014” yn adran 189 o'r Ddeddf fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4).

10 Diffinnir “gwasanaeth lleoli oedolion” ym mharagraff 6(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf fel “gwasanaeth a gynhelir (pa un ai er elw ai peidio) gan awdurdod lleol neu berson arall at ddibenion lleoli oedolion gydag unigolyn yng Nghymru o dan gytundeb gofalwr (ac mae'n cynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer recriwtio, hyfforddi a goruchwylio unigolion o'r fath)”.

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr “gofalwr lleoli oedolion” (“*adult placement carer*”) yw person sydd wedi ymrwymo i gytundeb gofalwr(12) â darparwr gwasanaeth;

ystyr “y gwasanaeth” (“*the service*”), mewn perthynas â gwasanaeth lleoli oedolion, yw’r gwasanaeth a ddarperir mewn perthynas ag ardal benodedig;

ystyr “y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd” (“*the Disclosure and Barring Service*”) a’r “GDG” (“*DBS*”) yw’r corff a sefydlir gan adran 87(1) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012(13);

mae i “gweithiwr” yr un ystyron â “worker” yn adran 230(3) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996;

ystyr “proffesiynolyn gofal iechyd” (“*health care professional*”) yw person sydd wedi ei gofrestru’n aelod o unrhyw broffesiwn y mae adran 60(2) o Ddeddf Iechyd 1999(14) yn gymwys iddo;

ystyr “y rheoleiddiwr gwasanaethau” (“*the service regulator*”) yw Gweinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddiol(15);

ystyr “rheoleiddiwr y gweithlu” (“*the workforce regulator*”) yw GCC(16);

mae “staff” (“*staff*”) yn cynnwys—

(a) personau a gyflogir gan y darparwr gwasanaeth i weithio yn y gwasanaeth fel cyflogai neu weithiwr, a

(b) personau sydd wedi eu cymryd ymlaen gan y darparwr gwasanaeth o dan contract ar gyfer gwasanaethau,

ond nid yw’n cynnwys personau y caniateir iddynt weithio fel gwirfoddolwyr neu ofalwyr lleoli oedolion;

ystyr “tystysgrif GDG” (“*DBS certificate*”) yw dystysgrif o fath y cyfeirir ato ym mharagraff 2 neu 3 o Atodlen 1;

ystyr “yr unigolyn” (“*the individual*”), oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall, yw’r oedolyn sy’n cael gofal a chymorth.

RHAN 17

Troseddau

Troseddau – darparwyr gwasanaethau

64.—(1) Mae’n drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o’r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2)(17).

11 Mae rheoliad 3 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/1098 (Cy. 278)) yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy’n dymuno darparu gwasanaethau lleoli oedolion ddarparu datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae’r gwasanaeth i’w ddarparu ohono.

12 Diffinnir “cytundeb gofalwr” ym mharagraff 6(2) o Atodlen 1 i’r Ddeddf fel “cytundeb ar gyfer darparu gan unigolyn lety yng nghartref yr unigolyn ynghyd â gofal a chymorth ar gyfer hyd at dri oedolyn”.

13 2012 p. 9.

14 1999 p. 8.

15 Diffinnir “swyddogaethau rheoleiddiol” yn adran 3(1)(b) o’r Ddeddf.

16 Gweler adran 67(3) o’r Ddeddf am y diffiniad o Ofal Cymdeithasol Cymeu fel “GCC”.

17 Am gosbau yn dilyn euogfarn am drosedd o dan y rheoliad hwn, gweler adran 51(1) o’r Ddeddf.

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau 3(3), 3(5), 7(3), 8(1), 8(4), 11(1), 16(1), 16(2), 16(3), 28(1), 31(1), 36(1), 40(1), 40(2), 41(1) ac 41(3).

(3) Mae darparwr gwasanaeth yn cyflawni trosedd os yw'r darparwr gwasanaeth yn methu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (4) a bod methiant o'r fath yn arwain at—

- (a) niwed y gellir ei osgoi (pa un ai o natur gorfforol neu seicolegol) i unigolyn,
- (b) unigolyn yn cael ei wneud yn agored i risg sylweddol o niwed o'r fath, neu
- (c) yn achos dwyn, camddefnyddio neu gamberchnogi arian neu eiddo, unrhyw golled gan unigolyn o'r arian neu'r eiddo o dan sylw.

Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (3) yw darpariaethau rheoliadau 2, 3(1), 10(1), 10(3), 13(1), 13(3), 13(5), 14(1), 14(4), 17(1), 17(2), 21 a 27(1).

Troseddau – unigolion cyfrifol

65.—(1) Mae'n drosedd i'r unigolyn cyfrifol fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2)(**18**).

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau 46(1), 47(1), 50(1), 50(2), 52(1), 52(2), 53(1), 53(2), 54(1), 59(4), 60(1), 63(1) a 63(3).

RHAN 18

Darparwyr gwasanaethau sydd wedi eu datod etc. neu sydd wedi marw

Penodi datodwyr etc.

66. Rhaid i berson a benodir(**19**)—

- (a) yn ddi-oed, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r rheoleiddiwr gwasanaethau o'i benodiad a'r rhesymau dros ei benodi;
- (b) o fewn 28 o ddiwrnodau i'w benodi, hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau o'i fwriadau ynghylch gweithrediad y gwasanaeth yn y dyfodol.

Marwolaeth y darparwr gwasanaeth

67.—(1) Pan fo'r darparwr gwasanaeth sy'n unigolyn wedi marw, rhaid i gynrychiolwyr personol yr unigolyn—

- (a) yn ddi-oed, roi hysbysiad ysgrifenedig o'r farwolaeth i'r rheoleiddiwr gwasanaethau;
- (b) o fewn 28 o ddiwrnodau i'r farwolaeth, hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau am eu bwriadau ynghylch gweithrediad y gwasanaeth yn y dyfodol.

(2) Caiff cynrychiolwyr personol yr unigolyn weithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaeth am gyfnod nad yw'n hwy nag 28 o ddiwrnodau neu am unrhyw gyfnod hwy (nad yw'n hwy nag un flwyddyn) y mae'r rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno arno.

18 Am gosbau yn dilyn euogfarn am drosedd o dan y rheoliad hwn, gweler adran 51(1) o'r Ddeddf.

19 Mae i "person a benodir" yr un ystyr ag yn adran 30 o'r Ddeddf.

(3) Pan fo'r cynrychiolwyr personol yn gweithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaeth yn unol â pharagraff (2), mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn—

(a) nid yw adran 5 (gofyniad i gofrestru) yn gymwys;

(b) mae adran 21(2) (unigolion cyfrifol) i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (a)—

“(aa)pan fo cynrychiolwyr personol darparwr gwasanaeth sydd wedi marw yn gweithredu yn rhinwedd y darparwr gwasanaeth, fod yn un o'r cynrychiolwyr personol;”.

RHAN 19

Rheoliadau o dan adran 21(5) o'r Ddeddf

Dynodiad unigolyn cyfrifol gan Weinidogion Cymru

68. Caiff Gweinidogion Cymru (yn lle darparwr gwasanaeth) ddynodi unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol, er nad yw gofynion adran 21(2) o'r Ddeddf wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r unigolyn, o dan yr amgylchiadau a ganlyn—

(a) bod y darparwr gwasanaeth yn unigolyn sydd wedi marw ac mae cynrychiolwyr personol y darparwr gwasanaeth wedi hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau nad ydynt yn bwriadu gwneud cais o dan adran 11(1)(c) o'r Ddeddf;

(b) bod y darparwr gwasanaeth yn unigolyn ac wedi hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau—

(i) na all gydymffurfio â'i ddyletswyddau fel unigolyn cyfrifol mwyach, a

(ii) y rhesymau dros hyn;

(c) bod y darparwr gwasanaeth yn gorff corfforaethol neu'n bartneriaeth ac wedi hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau—

(i) nad yw'r unigolyn sydd wedi ei ddynodi gan y darparwr gwasanaeth fel yr unigolyn cyfrifol yn gallu cydymffurfio â'i ddyletswyddau fel unigolyn cyfrifol mwyach,

(ii) y rhesymau dros hyn, a

(iii) nad oes unrhyw unigolyn arall sy'n gymwys i fod yn unigolyn cyfrifol ac sy'n gallu cydymffurfio â dyletswyddau unigolyn cyfrifol.

ATODLEN 1 Rheoliadau 28 ac 36

RHAN 1

Gwybodaeth a dogfennaeth sydd i fod ar gael mewn cysylltiad â gofalwyr lleoli oedolion a phersonau sy'n gweithio yn y gwasanaeth

1. Prawf o bwy yw'r person gan gynnwys ffotograff diweddar.
2. Pan fo'n ofynnol at ddibenion cwestiwn sydd wedi ei esemptio yn unol ag adran 113A(2)(b) o Ddeddf yr Heddlu 1997(20), copi o dystysgrif cofnod troseddol ddilys a ddyroddir o dan adran 113A o'r Ddeddf honno ynghyd, ar ôl y diwrnod penodedig a phan fo'n gymwys, â'r wybodaeth a grybwyllir yn adran 30A(3) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(21) (darparu gwybodaeth am waharddiadau ar gais).
3. Pan fo'n ofynnol at ddibenion cwestiwn sydd wedi ei esemptio ac a ofynnir at ddiben rhagnodedig o dan adran 113B(2)(b) o Ddeddf yr Heddlu 1997, copi o dystysgrif cofnod troseddol manwl ddilys a ddyroddir o dan adran 113B o'r Ddeddf honno ynghyd, pan fo'n gymwys, â gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf (o fewn ystyr "suitability information relating to vulnerable adults" yn adran 113BB(2) o'r Ddeddf honno).
4. Dau eirida ysgrifenedig, gan gynnwys geirida gan y cyflogwr diwethaf, os oes un.
5. Pan fo person wedi gweithio'n flaenorol mewn swydd yr oedd ei dyletswyddau yn cynnwys gweithio gyda phlant neu oedolion hyglwyf, cadarnhad, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, o'r rheswm pam y daeth y gyflogaeth neu'r swydd i ben.
6. Tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gymhwyster perthnasol.
7. Pan fo'n berthnasol, tystiolaeth ddogfennol o gofrestrriad â GCC.
8. Hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth.
9. Tystiolaeth o allu ieithyddol boddhaol at ddibenion darparu gofal a chymorth i'r unigolion hynny y mae'r gweithiwr neu'r gofalwr lleoli oedolion i ddarparu gofal a chymorth ar eu cyfer.
10. Manylion cofrestrriad ag unrhyw gorff proffesiynol neu aelodaeth o gorff o'r fath.

20 1997 p. 50.
21 2006 p. 47.

RHAN 2

Dehongli Rhan 1

11. At ddibenion paragraffau 2 a 3 o Ran 1 o'r Atodlen hon—

- (a) os nad yw'r person y mae'r dystysgrif yn ymwneud ag ef wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddarau'r GDG, nid yw tystysgrif ond yn ddilys –
 - (i) os y'i dyroddwyd mewn ymateb i gais gan y darparwr gwasanaeth yn unol â rheoliad 28(3) neu (6), neu 36(3) neu (6), a
 - (ii) os nad oes mwy na thair blynedd wedi mynd heibio ers i'r dystysgrif gael ei dyroddi;
- (b) os yw'r person y mae'r dystysgrif yn ymwneud ag ef wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddarau'r GDG, mae'r dystysgrif yn ddilys ni waeth pa bryd y'i dyroddwyd.

ATODLEN 2 Rheoliad 40

Y cofnodion sydd i'w cadw mewn cysylltiad â gwasanaethau

Y cofnodion sydd i'w cadw

1. Mewn cysylltiad â phob gofalwr lleoli oedolion, cofnodion o—
 - (a) enw llawn;
 - (b) rhyw;
 - (c) dyddiad geni;
 - (d) cyfeiriad;
 - (e) cymwysterau sy'n berthnasol i waith sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf a phrofiad o wneud gwaith o'r fath;
 - (f) copi o'r cytundeb gofalwr;
 - (g) copi o unrhyw gytundebau lleoli unigolion perthnasol;
 - (h) cofnod o'r gwaith monitro a wneir mewn cysylltiad â'r lleoliad.
2. Mewn cysylltiad â phob unigolyn, cofnodion o—
 - (a) pob asesiad perthnasol;
 - (b) cynlluniau gofal a chymorth;
 - (c) cynlluniau personol;
 - (d) adolygiadau o gynlluniau personol.
3. Cofnod o unrhyw ffioedd gan y darparwr gwasanaeth i unigolion am ddarparu gofal a chymorth ac unrhyw wasanaethau ychwanegol.
4. Pan fo'n gymwys, cofnod o'r holl feddyginiaethau a gedwir gan y gofalwr lleoli oedolion ar gyfer pob unigolyn a'r dyddiad a'r amser y'u rhoddwyd i'r unigolyn.
5. Cofnod o'r holl arian neu bethau gwerthfawr eraill a adneuwyd gan yr unigolyn gyda'r gofalwr lleoli oedolion i'w cadw'n ddiogel neu a gafwyd ar ran yr unigolyn, a hwnnw'n gofnod y mae rhaid iddo gynnwys cofnod o—
 - (a) y dyddiad yr adneuwyd neu y cafwyd yr arian neu'r pethau gwerthfawr;
 - (b) y dyddiad y cafodd unrhyw arian neu bethau gwerthfawr—
 - (i) eu dychwelyd at yr unigolyn, neu
 - (ii) eu defnyddio, ar gais yr unigolyn, ar ei ran;
 - (c) pan fo'n gymwys, y diben y defnyddiwyd yr arian neu'r pethau gwerthfawr ato;
 - (d) y gydnabyddiaeth ysgrifenedig bod yr arian neu'r pethau gwerthfawr wedi eu dychwelyd.
6. Cofnod o'r digwyddiadau a ganlyn sy'n digwydd yng nghartref y gofalwr lleoli oedolion—
 - (a) unrhyw ddamwain neu anaf difrifol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar lesiant unigolyn;
 - (b) unrhyw achos o ddwyn neu fwrgleriaeth;
 - (c) unrhyw atgyfeiriad diogelu a wneir mewn cysylltiad ag unigolyn;

- (d) dyddiad ac amgylchiadau unrhyw fesurau rheoli, atal neu ddisgyblu a ddefnyddir ar unigolyn.
7. Cofnod o'r holl gwynion a wneir gan unigolion neu eu cynrychiolwyr neu gan bersonau sy'n gweithio yn y gwasanaeth neu gan ofalwyr lleoli oedolion ynghylch gweithrediad y gwasanaeth, a'r camau gweithredu a gymerir gan y darparwr gwasanaeth mewn cysylltiad ag unrhyw gŵyn o'r fath.
8. Cofnod o'r holl bersonau sy'n gweithio yn y gwasanaeth, a hwnnw'n gofnod y mae rhaid iddo gynnwys y materion a ganlyn—
- (a) enw llawn, cyfeiriad, dyddiad geni, cymwysterau a phrofiad y person;
 - (b) copi o dystysgrif geni a phasbort (os oes ganddo un) y person;
 - (c) copi o bob geirda a geir mewn cysylltiad â'r person;
 - (d) y dyddiadau y mae'r person yn dechrau cael ei gyflogi felly ac yn peidio â chael ei gyflogi felly;
 - (e) y swydd sydd gan y person yn y gwasanaeth, y gwaith y mae'n ei wneud a nifer yr oriau y mae wedi ei gyflogi bob wythnos;
 - (f) cofnodion o gamau disgyblu ac unrhyw gofnodion eraill mewn perthynas â chyflogaeth y person;
 - (g) cofnod o ddyddiad tystysgrif GDG ac a gymerwyd unrhyw gamau gweithredu o ganlyniad i gynnwys y dystysgrif.
9. Copi o restr ddyletswyddau'r personau sy'n gweithio yn y gwasanaeth, a chofnod o ran a oedd y rhestr yn gweithio yn ôl yr hyn a fwriadwyd mewn gwirionedd.

ATODLEN 3 Rheoliad 41

Hysbysiadau gan y darparwr gwasanaeth

1. Unrhyw ddiwygiad i'r datganiad o ddiben, 28 o ddiwrnodau cyn i'r datganiad o ddiben diwygiedig gymryd effaith.
2. Pan fo'r darparwr gwasanaeth (unigolyn neu sefydliad) yn newid ei enw.
3. Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn gwmni, unrhyw newid i gyfarwyddwyr y cwmni.
4. Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn, penodi ymddiriedolwr mewn methdaliad mewn perthynas â'r unigolyn hwnnw.
5. Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn gorff corfforaethol neu'n bartneriaeth, penodi derbynnnydd, rheolwr, datodwr neu ddatodwr dros dro mewn perthynas â'r cwmni hwnnw neu'r bartneriaeth honno.
6. Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn bartneriaeth, marwolaeth un o'r partneriaid.
7. Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn bartneriaeth, unrhyw newid i'r partneriaid.
8. Absenoldeb disgwylidig yr unigolyn cyfrifol am 28 o ddiwrnodau neu ragor, 7 niwrnod cyn i'r absenoldeb ddechrau.
9. Absenoldeb annisgwyl yr unigolyn cyfrifol, heb fod yn hwyrach na 7 niwrnod ar ôl i'r absenoldeb ddechrau.
10. Absenoldeb annisgwyl yr unigolyn cyfrifol am 28 o ddiwrnodau neu ragor, pan na fo hysbysiad ymlaen llaw wedi ei roi, yn union wrth i'r 28 o ddiwrnodau yn dilyn dechrau'r absenoldeb ddod i ben.
11. Bod yr unigolyn cyfrifol yn dychwelyd o fod yn absennol.
12. Bod yr unigolyn cyfrifol yn peidio â bod, neu'n bwriadu peidio â bod, yr unigolyn cyfrifol am y gwasanaeth.
13. Unrhyw gam-drin neu honiad o gam-drin mewn perthynas ag unigolyn sy'n ymwneud â'r darparwr gwasanaeth, aelod o staff, gwirfoddolwr a/neu ofalwr lleoli oedolion.
14. Pan fo'r darparwr gwasanaeth, yr unigolyn cyfrifol neu'r rheolwr a benodir wedi ei euogfarnu o drosedd.
15. Unrhyw honiad o gamymddwyn gan aelod o staff.
16. Damwain neu anaf difrifol unigolyn sydd wedi ei leoli gyda gofalwr lleoli oedolion.
17. Unrhyw ddigwyddiad a gaiff ei adrodd i'r heddlu.
18. Unrhyw ddigwyddiadau sy'n atal, neu a allai atal, y darparwr gwasanaeth rhag parhau i ddarparu'r gwasanaeth yn ddiogel.
19. Marwolaeth unigolyn sydd wedi ei leoli gyda gofalwr lleoli oedolion a'r amgylchiadau.

- 20.**Unrhyw gais i gorff goruchwylio mewn perthynas â chymhwyso'r mesurau diogelwch amddifadu o ryddid (DOLS)(**22**).
- 21.**Unrhyw gynnig i newid cyfeiriad y brif swyddfa, 28 o ddiwrnodau cyn i'r newid ddigwydd.

22 *Gweler* Rhan 1 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p. 9).

ATODLEN 4 Rheoliad 63

Hysbysiadau gan yr unigolyn cyfrifol

1. Penodi rheolwr (gweler rheoliad 46(1)).
2. Absenoldeb disgwyledig y rheolwr a benodir am 28 o ddiwrnodau neu ragor, 7 niwrnod cyn i'r absenoldeb ddechrau.
3. Absenoldeb annisgwyl y rheolwr a benodir, heb fod yn hwyrach na 7 niwrnod ar ôl i'r absenoldeb ddechrau.
4. Absenoldeb annisgwyl y rheolwr a benodir am 28 o ddiwrnodau neu ragor, pan na fo hysbysiad ymlaen llaw wedi ei roi, yn union wrth i'r 28 o ddiwrnodau yn dilyn dechrau'r absenoldeb ddod i ben.
5. Bod y rheolwr a benodir yn dychwelyd o fod yn absennol.
6. Trefniadau interim pan fo'r rheolwr yn absennol am fwy nag 28 o ddiwrnodau.
7. Bod rhywun ac eithrio'r rheolwr a benodir yn bwriadu rheoli neu yn rheoli'r gwasanaeth.
8. Bod y rheolwr a benodir yn peidio, neu'n bwriadu peidio, â rheoli'r gwasanaeth.